YR YMOFYNYDD.

RHIF. 23.] TACHWEDD, 1860. [AIL GYFRES.

COFION A CHYFFESIADAU.

Y lle bum yn gware' gynt
Mae dynion na'm hadwaenynt;
Cyfaill neu ddau a'm cofiant,
Prin ddau lle'r oedd gynau gant.—G. OWAIN.

MAGED fi mewn teulu syml a duwiol, lle nad oedd cyfoeth na thlodi, ond gwala a gweddill bob amser. Nid yn unig yr enw o grefydd a feddienid, eithr hefyd y pwys a'r sylwedd o honi. Cyflewnid dyledswyddau defosiynol yn reolaidd yn y teulu: darllen a gweddio bob bore a fynychaf bob hwyr, gras o flaen a diolch ar ol bwyd. Nid oedd dim yn ffurfiol, ond rhedai yspryd gwresog a difrifol trwy bob defosiwn. Nid wyf oddiar hyny hyd yn awr erioed wedi canfod mwy o ddidwyllder a chywirdeb a gwylder gyda dyledswyddau teuluaidd crefyddol. Nid oedd i un lyfr yn y ty gymaint o barch a'r Beibl, ac ni ddarllenid yr un llyfr mor fynych. Gwelais lawer gwaith oddiar hyny fwy o gyfarwydd-deb a medrusrwydd gyda'r rhanau dadleuol o'r Ysgrythyrau, ond nid gyda'r rhanau amlwg ac ymarferol. Teimlid yn artrefol gyda gorchymynion syml ac eglur yr Iesu, gweddiau toddedig a drylliog llyfr y Salmau, gwersi doethion a gwerthfawr y Diarhebion, yr anogaethau i fuchedd weddus a diargyhoedd yn yr Epistolau, a sugnid mêl addysg oddiwrth ymadroddion tywyllion a hen hanesion hynod yr oesau gynt.

Dysgwyd fi i ddarllen yn gynar, a'r llyfr cyntaf a rodded i fy llaw oedd y Beibl. Anogid fi i drysori rhanau o hono i fy nghof, yr hyn a wnawn gyda chryn rwyddineb. Arferem yr hen ddefod dda o ddweyd adnodau wrth yr allor deuluaidd. Y mae y rhanau o'r Beibl a ddysgais y pryd hwnw yn aros yn fy nghof hyd heddyw, a chefais hwynt yn lles ar lawer adeg helbulus yn ystod fy oes. Nid wyf yn cofio amser pan nad oeddwn yn fy lle yn yr Ysgol Sabbothol; a theimlais awydd bore i geisio ateb y gofyniadau syml a roddid i ni gan yr athraw. Yr oedd llawer o honynt yn ofyniadau ynghylch cystrawen yr iaith, a hanes y personau a'r llefydd y darllenem am danynt, ond er hyny yn dra addas i dynu sylw ac arfer cof plentyn. Rhoddid rhyw bwnc i lawr yn gyffredin ar gyfer y Sabboth canlynol, megys chwilio am adnodau i brofi rhyw rai o briodoleddau Duw, neu y teitlau a roddir i Grist yn yr Ysgrythyrau. Mawr a fyddai'r chwilio ar yr achlysuron hyn; cymerid mantais o bob hen gatecism a phregeth ac esponiad; ni esgeulusid un cyfeiriad ar ymyl y ddalen; arweinid ni yn aml gan y swn yn hytrach na'r ystyr; anfynych, os byth, y gwrthodid un adnod a ddygid yn mlaen, fel pe buasai gwirionedd yr hyn oedd i'w brofi yn ymddibynu ar *nifer* yr adnodau, ac fel pe buasai derbyn pobpeth yn llai o fai na gwrthod dim ag yr oedd yr amheuaeth leiaf ei fod rhyw gysylltiad â'r pwnc. Duwdod Crist oedd un o'r testunau, ac ystyrid pob adnod lle y gelwir ef "Arglwydd" yn brawf o'i

Dduwdod, yn gystal a phob gwyrth a wnaeth. Chwilid allan y prophwydoliaethau am dano; ac er y buasai ysgrifenwyr galluog diweddar yn sicr o olygu y daflen a dynem o'r rhagfynegiadau am y Messia yn dra rhyfygus a disail, ac er fy mod fy hun erbyn hyn wedi cael cyfleusderau i weled yn well, y pryd hwnw, ni chodwyd gwrthddadl na chan eraill, nae yn fy meddwl fy hun. Y gwirionedd yw, nad oeddwn i na fy nghyd-ddysgyblion yn *meddwl* ond ychydig neu ddim am y mater mewn llaw; arfer y sylw a'r cof oedd y cwbl a chael ryw waith ar hyd yr wythnos. Yr oeddym yn rhy ieuanc i fod yn ofalus ac yn rhy anwybodus i fod yn gywir yn ein hymchwiliadau; ac nid oedd oedran a phrofiad wedi peri bod ein hathrawon yn anfoddlawn i'r hen ddull esmwyth o dderbyn daliadau y tadau yn ddiddrwgdybiaeth a rhesymau y tadau drostynt, heb gofio fod goleuni ychwanegol yn difreinio llawer o'r hen resymau ac yn galw am rai gwahanol a gwell.

Wrth ystyried arferion crefyddol y teulu a fy ymlyniad ffyddlawn wrth yr ysgol, nid oedd ymaelodi yn yr eglwys ond cam bychan a naturiol i'w roddi. Yr wyf yn cofio heddyw gyda hyfrydwch ac arswyd parchus am y Sabbath cymundeb y cefais i a phedwar eraill ein derbyn yn aelodau—un o honynt yn gyfaill mynwesol i mi ar y pryd ac ar ol hyn hefyd. Diwrnod heulog yn Mai oedd; diwrnod rhy deg i fod yn arwyddlun priodol o lawer dydd garw a niwlog a aeth wedi hyny dros fy mhen. Er mor ieuanc oeddwn, deallwn mai peth pwysig oedd gwneyd arddeliad cyhoeddus o grefydd, ac addunedwn, yn nghymhorth Duw, i rodio yn addas i fy mhroffes, a gweddiwn o eigion calon am fodd i barhau yn ddigwymp yn nghanol profedigaethau ieuenctyd a chyfnewidiadau bywyd. Ces lawer cynghor dwys gan rai henach na mi y y diwrnod hwnw, a theimlwn fod llygaid llawer ar fy ol, rhai o gywreinrwydd, eraill o gariad ataf. Pell oeddwn o feddwl fod pob peth drosodd ar fy ymuniad â'r eglwys. Darllenwn fy Meibl, y rhanau eglur a defosiynol o hono yn benaf, gyda mwy o egni a blas nag erioed. Nid oeddwn ar un pryd wedi bod yn blentyn drwg, aneirwir, anonest, taeog, ystyfnig, na diog; ac eto teimlwn yn awr y gallaswn fod yn well, ac awyddwn am fyned rhagof mewn da. Diau yr arferwn y dull cyffredin wrth siarad am bethau crefyddol; yr oedd, er hyny, lawer o bynciau a ddelid yn dyn gan fy mrodyr, ac a grybwyllid ganddynt yn wastadol, nad oedd ganddynt yr un afael neillduol ar fy meddwl i. Ni theimlais haeddiant iawnol Crist yn dod adref fel peth sylweddol i fy nghydwybod. Po fwyaf a feddyliwn am dano, tywyllaf i gyd yr elai i mi, a mwyaf oll y gofidiwn yn ei gylch. Bywyd Iesu Grist oedd hoff destun fy narllen a'm myfyrdod, a bod fel efe fy nymuniad penaf. Yr oedd rhai o'r Salmau yn felus iawn i mi. Mynych y cymerwn y Beibl allan i'r maesydd i gysgod pren cauedig, neu i lan afon gerllaw, yn enwedig ar oriau hamddenol y Sabboth. Darllenwn ychydig nes myned i hwyl gynes, yna gweddiwn, ac yn aml canlynid hyn gan sylwadau byrion ar ffurf pregeth oddiwrth ryw adnod hoff. Yn byw yn nghanol y wlad, yr oedd genyf ddigon o gyfleusderau i ymneillduo, fel Isaac gynt, i fyfyrio yn y maes. Yn amser cynhauaf, cof genyf y fath bleser a gawn i orweddach ar y cae gwair glân, neu led-bwyso ar y deisiau ŷd i ddarllen a syn-fyfyrio. Mae yn gofus genym y dodid gwelyaid braf o ffa yn ngwàr y cae gwair ar droion, ac mor ddyddanus oedd eistedd ar eu pwys, rhyngddynt a'r awel hwyrol, yr hon a gludai tuag ataf, fel yr oeddwn yn darllen, eu perarogl adfywiol. Llawer tro y gweddiais yn yr hen gonglau cysegredig, a than y derw urddasol o gylch fy nghartref; ac yr oeddwn yn teimlo y pryd hwnw, a chredwyf yn awr i mi fwynhau cym-

mundeb pur a melus â'r Ysbryd Mawr lawer gwaith. Ac os y glân ei ddwylaw a'r pur ei galon, os y galon ddrylliog a'r ysbryd cystuddiedig yn crynu wrth ei air, sy gymeradwy gyda Duw, pa fodd nad oes genyf sail dda i gasglu mai oddiwrtho Ef y deuai yr hyfrydwch a'r hedd a ddylifent i fy mynwes?

Yr oedd genyf gydymaith yn aml ar yr achlysuron hyn. Cyd-ddarllenem, cyd-weddiem, a chyd-ymddyddanem. Ond dewisach oedd genyf fod wrthyf fy hun, gan ei fod ef yn hŷn na mi, a bod fy nifrifoldeb i ar droion, mewn canlyniad, yn brofedigaeth i'w flynyddoedd addfetach a'i ysmaldod (*humour*) ef. Gwahanodd amgylchiadau ni cyn hir oddiwrth ein gilydd, ac ond weithiau y gwelem ein gilydd. Parhaodd ef yn grefyddol dros ei oes; parhaodd hefyd i chwilio am grefydd oleuedig a rhesymol; ces lawer cyfarwyddyd buddiol ganddo mewn amser diweddarch, pan yn teimlo yn amheus a dyryslyd gyda golwg ar lawer o bethau. Cymhellai fi i feddwl drosof fy hun, heb dderbyn dim yn unig ar sail traddodiad, ond cymhwyso yr oll at faen-prawf y rheswm a'r gydwybod. Gwelais ef mewn adfyd a thlodi, yn ddigon trist a digalon, druan, nes y cyffröid ef trwy ymddyddan cyfeillgar i adgofio ac ad-deimlo yr hyn a fu. Nid oedd dim a'i bywiogai gymaint a rhyw anerchiad o'r fath hyn:—

O 'nghyfaill! a yw'th obaith wedi pallu?
Oes yna ddim o'r unwaith ddirfawr allu?
A wyt yn cofio'r mil cynlluniau dynit,
Pan gurai'th nerth i lawr y rhwystrau fel y mynit?
Yr afon fad, y rhodiem gynt ei glanau,
Gan yfed miwsig pêr ei hystwyth danau;
Lle maethem dwf a chynydd ein gobeithion,
Gan flaenolygu rhawd o flwyddi meithion,—
Mae'r afon hono byth yn mlaen yn ffrydio,
Y ddoe, fel pan yn blentyn, gwnes ei rhydio;
Ac fel ei thônau hi, mor llawn, mor groew,
Y llifai droswyf hen adgofion hoew—
Am danat ti yn benaf, gyfaill goreu,
Am danat ti, fy nghu arweinydd boreu.
O fore hawddgar! *ambell* fore dorodd
Na hwnw yn *fwy* hawddgar, can's agorodd
Dan wlith dy awen di, dan dês dy gariad,
A lychai feddwl plant daw byth ysgariad.

Nid yw bellach ar y ddaear. Cymerwyd ef ymaith yn ddyn ieuanc. Ychydig sydd yn cofio am dano erbyn hyn; ond y mae er "heb gofio neb, yn an-anghofiedig" genyf fi, canys aeth ei ddylanwad ef gyda llawer o ddylanwadau eraill i fy ngwneyd y peth ag ydwyf.

Ychydig lyfrau a syrthient i'm dwylaw, a'r ychydig hyny o'r un ddelw, heb nemawr amrywiaeth, a chan fwyaf yn fas a sathredig eu meddyliau, ac amddifad o olygiadau eang a chyrhaeddfawr ar ddim. Gwneid hwynt i fynu o gyhoeddiadau yr enwad, dau neu dri o esponiadau, ac ambell i lyfr duwinyddol yn benaf wedi eu troi o'r Saesneg. Dylwn gau allan oddiwrth y ddedfryd gondemniol uchod, "Daith y Pererin" gan Bunyan, a "Dechreuad a Chynydd Crefydd yn yr Enaid" gan Doddridge. Hoffwn y gweddiau yn yr olaf yn fawr, a'r dysgrifiadau ehediadol a grymus yn y blaenaf. "Hanes Crefyddau yn y Byd" gan y Dr. John Evans o Islington oedd un arall, yn yr hwn y cawn lawer o ddifyrwch, er fy mod yn mhell o allu ei ddarlien y pryd hwnw gydag un amcan neu ysbryd beirniadol, fel ag i fod er addysg i mi ar adegau o amheuaeth ac ymchwil yn ol llaw. Nid oedd neb yn neilldual i fy nghymhell i ddal sylw manwl ar yr hyn a ddarllenwn, ac i'w droi gwedi hyny yn fy meddwl, fel yr aeth fy arferion darllenol yn llaes a dibwynt, yn

fwy er difyrwch nag adeiladaeth. Dywed Pope y darllenai ef o bedair-arddeg i ugain er mwyn ei bleser, ac o ugain i saith-ar-hugain er gwelliant ac addysg; yn y rhan flaenaf o'i amser, ei awydd oedd dod i wybod, eithr yn yr ail ceisiai ffurfio barn drosto ei hun. Ac fel hyn y bydd hi bob amser, yr wyf yn ofni, gyda'r rhan fwyaf yn ystod eu bachgendod, os na ofelir i wasgu arnynt y pwys o sefyll uwchben a chwilio i mewn i'r hyn a ddarllenant. Pan darewai rhyw ofyniad i fy mhen, nid oedd genyf neb i'w ateb nac i gefnogi ymofyniad pellach. Ardal lonydd ddifywyd oedd, lle yr oedd to ar ol to yn foddlawn marw yn ffydd eu hynafiaid. Yr oedd ei hunigedd a'i phellder yn brofedigaeth i farweidd-dra. Cai yr un fath lyfrau eu darllen, yr un fath esponiadau eu rhoddi, a'r un fath olygiadau, os priodol eu galw felly, eu dal o daid i dad, ac o dad i fab. Yr oedd yno undeb barn, ond y fath undeb ag a ddeillia o fod pobl wedi cysgu neu rewi ynghyd. Nid wyf yn tybied ei bod yn waeth na llawer o ardaloedd eraill; gwn ei bod yn rhagori ar lawer am burdeb ei moesau a 'didwyllder ei defosiwn. Ac nid wyf am wadu ei bod hithau yn rhyw raddol symud neu ymlusgo yn mlaen gyda'r oes, er fod yn rhaid wrth lygad tra chraffus cyn gallu mesur graddau ei blaen-fynediad. Pa fodd bynag, rhy anhawdd, wrth daflu golwg yn ol, yw peidio teimlo yn alarus nad oedd mwy o anogaeth yn cael ei roddi i lafur meddyliol, a mwy o bwys yn cael ei osod ar ymdrech bersonol i ddod o hyd i wirionedd. Os, fel y dywed un gwr enwog, y gellir, trwy ddiwydrwydd, wneyd amser yn annherfynol o hir, ac os yw pob dydd yn fath o lestr i'r hwn y gallem dywallt peth anferth, pe y llanwem ef i fynu mewn gwirionedd, diau ddarfod i esgeulusdod a musgrellni yr amser hwn fyrhau fy oes yn fawr, a pheri fod fy ngwybodaeth a fy mhrofiad yn llawer prinach nag y gallasent fod.

Aeth amser rhagddo. Cymerodd amgylchiadau pwysfawr le ar y Cyfandir yn gystal ag yn y wlad hon yn ystod y blynyddau hyny tra na wyddwn i ar y pryd ond y peth lleiaf oddiwrthynt. Cefais dwysged o ysgol o dro i'w gilydd, dan athrawon yn gwahaniaethu cryn lawer yn eu gwybodaeth a'u cymhwysder i ddysgu eraill, nes y des yn alluog i ddeall rhyw ychydig o Saesneg; prin digon i gadw o hyd golwg i'r ystyr wrth ddarllen. Rhyw hela yr ystyr yr oeddwn, heb bob amser lwyddo i'w ddwyn i'r ddalfa yn y pen draw. Yr oedd tro ar fyd wrth y drws. Daeth yr amser yr oeddwn wedi bod yn hir awyddu ei weled. Ces adael cartref i ddilyn gwaith anwylach genyf na fy nghartref fy hun. Rhoddwyd fi yn yr ysgol gyda'r bwriad, os gellid, i fy ngadael ynddi nes cyrhaedd gradd gymhedrol o wybodaeth er fy nghymhwyso ar gyfer bod yn weinidog. Bore bythgofiadwy i mi oedd y bore y gadewais gartref i fyned i'r ysgol. Yr oedd awelon Ionawr yn chwythu yn llym, ac ambell seren i'w chanfod yn prudd lewyrchu drwy gymylau y bore gwlawog, a'r lluwchau o eira diweddar heb lwyr ddiflanu o ymylon y ffyrdd. Ond iach fel y gog oedd y galon. Dechreuwn deimlo fod fy rhag-ddysgwyliadau ar gael eu cwblhau, a dihunai ynof o'r newydd y gobeithion ag oeddynt wedi parhau i gael eu teimlo genyf er yn fore. Paham, nis gwn, ond fy nymuniad boreuaf oedd bod yn weinidog. Anmherffaith i'r eithaf yn ddiau oedd fy syniadau am odidowgrwydd ac urddas y swydd; eto hyhi oedd y nod uchel o fy mlaen, ac i ryw fesur teimlwn yn awr wirionedd y llinellau:—

> "Of what each one should be, he sees the form and rule,
> And till he reach to that his joy can ne'er be full."

LIBERTINUS.

LLESTR-LLAFUR Y CRYNWR.

Yn oedd dyn yn arfer lladratta oddiwrth Grynwr *(Quaker)* yr hwn oedd gymmydog iddo. Bob nos yr oedd yn arfer myned yn ddistaw at gist ac yn llanw ei gwd â'r tywys ag oedd llafur yr hen Grynwr da wedi eu gosod yno. Bob boreu yr oedd yr hen foneddwr yn sylwi fod lleihad yn ei grugyn llafur. Yr oedd yn flinderus iawn, a rhaid oedd gosod attaliad arno,—ond sut? Dywedai llawer, "Cymmerwch ddryll, ymguddiwch, aroswch nes delo, a thaniwch." Dywedai ereill, "Daliwch y filain, a danfonwch ef i garchar."

Ond nid oedd y Crynwr ddim yn barod i gymmeryd mesurau mor llym. Yr oedd am gospi y troseddwr ac ar yr un pryd i ddwyn oddiamgylch ei ddiwygiad os oedd bosibl. Felly gosododd math o drap yn glos i'r twll trwy yr hwn yr oedd yn rhaid i'r dyn i wthio ei fraich er cael y llafur.

Yn nyfnder y nos fe ddaeth y cymmydog a'i gwd yn ei law ar ei neges bechadurus. Heb feddwl dim gwthiodd ei law i'r gist, ond wele! nid oedd yn alluog i'w thynnu oddiyno! Yn ofer yr oedd yn tynnu, ac yn llusgo, ac yn chwysu, ac ar yn ail, yn llefain ac yn rhegu. Yr oedd ei law yn rhwym, ac yr oedd pob ymdrech i'w rhyddhau yn ei gwneuthur yn fwy sicr. Ymhen tippyn yr oedd y terfysg yn ei fynwes wedi tawelu i raddau. Rhoddodd i fynu ei ymdrechion diddefnydd, a dechreuodd giweo oddiamgylch iddo. Yr oedd y cwbl yn ddistaw ac yn dawel. Yr oedd dynion da yn gyssurus yn eu gwelyau, ac yntau yn gorfod gwilied trwy weddill y noswaith faith a blinderus honno, a'i law mewn poenau arteithiol oherwydd gwasgiad y darnau haiarn a'i daliai. Yr oedd ei aelodau blinedig, wedi eu gorfodi i ddal i fynu ei gorph diffygiol yn barod i syrthio odditano, a'i lygaid trymmaidd yn barod i gauad mewn cwsg, ond och! nid oedd gorphwysfa, na chwsg iddo ef. Yno yr oedd yn rhaid iddo i sefyll a gwilied treuliad y nos ymaith, ac ar unwaith yr oedd yn dymuno ac yn ofni dychweliad y boreu. Daeth y boreu o'r diwedd, ac edrychodd y Crynwr allan trwy y ffenestr, a gweiodd ei fod wedi "dala ei ddyn."

Beth oedd i'w wneud? Dywedai rhai, "Cerddwch allan, rhoddwch iddo fflangelliad da, ac yna rhyddhawch ef, fe wella hyny ef." "Nid felly," dywedodd y Crynwr. "Ni fuasai hynny o dim lleshad, buasai yn chwerwi y dyn, ac yn peri iddo fwngial melldithion dialedd." Brysiodd yr hen wr da i osod ei ddillad am dano, ac allan ag ef yn union i ryddhau a gosod terfyn ar gospedigaeth ei garcharor.

"Boreu da, gyfaill," meddai efe, wedi dyfod o fewn pellder llefaru. "Sut yr ydwyt ti."

Ni wnaeth y troseddwr druan ddim un atteb, ond dechreuodd wylo.

"O ffei!" meddai'r Crynwr pan oedd yn myned i'w ryddhau. "Y mae yn ddrwg gennyf dy fod wedi cael dy law yn rhwym, tydi a'i gosododd yn y man ni ddylit, neu ni fuasai yn digwydd felly."

Edrychai y dyn yn bruddaidd, a chan ddeisyf maddeuant, brysiodd i wneuthur ei fynediad allan.

"Aros," meddai ei erlidydd,—oblegid yr oedd wedi dyfod yn un yn awr a'r troseddwr, canys buasai yn haws ganddo i dderbyn ergyd, na'r geiriau tyner ag oedd yn syrthio dros wefusau'r crynwr,—"Aros, gyfaill; nid ydyw dy gwd yn llawn. Y mae arnat eisiau llafur neu ni fuasit yn ymdrafferthu cymmaint i'w gael. Tyred, gad i ni ei lanw."

Ac fe orfu i'r adyn druan i sefyll a dal y cwd tra'r oedd yr hen wr yn ei

lanw, ac yn gwella'r gorchwyl â'r ymadroddion mwyaf hyfryd a ellit ddychymygu, yr hyn oedd i gyd megys bidogau yng nghalon yr adyn gwael. Llanwyd y cwd, gosodwyd cwlwm ar y llinyn, ac yr oedd y dioddefydd yn gobeithio cael bod ar fyr yn awr allan o bresennoldeb ei boenwr; ond etto croeswyd ei amcan.

"Aros," meddai'r Crynwr, pan oedd y dyn ar frysio ymaith ar ol mwmial unwaith yn ychwaneg ei esgusodion a'i ddiolchgarwch. "Aros, y mae brecwast gyda Ruth cyn hyn; nis gelli feddwl am fyned cyn cael brecwast. Tyred, y mae Ruth yn galw!"

Yr oedd hyn braidd yn annioddefol! Dyma beth ydoedd "pentyrru marwor tanllyd" gyda dialedd. Yn ofer yr oedd y cymmydog siomedig yn ymbil am gael ei esgusodi; yn ofer yr oedd yn deisyf am gael ei ryddhau oddiwrth beth a fuasai iddo yn gosp deng-waith mwy llym na gwialennodiau a charchar. Yr oedd y Crynwr yn anmhlygadwy, a gorfododd ef i ufuddhau.

Wedi brecwast, "Nawr," meddai yr hen ffermwr, fel yr oedd yn helpu'r dyn i osod y cwd ar ei ysgwydd, "os bydd angen arnat am rhagor o lafur, tyred ar hyd y dydd, a thi a'i cei."

Pwy all ddywedyd gyda pha faint o gywilydd a gofid yr ymadawodd y dyn euog hwn â thrigfan y Crynwr duwiol? Y mae pob un yn barod i ddywedyd na chyffyrddodd efe a chist y Crynwr byth wedi'n. Y mae gennyf finnau rhywbeth gwell etto i'w ddywedyd wrthych. Fe dderw iddo ar unwaith i edifarhau a diwygio.

CYFD. TELOR.

DR. JOSEPH PRIESTLEY.

(Parhad o tudal 230.)

Ychydig cyn hyn yr ydwyf yn cofio yn burion pryd yr oeddwn yn hollol gredu yn yr athrawiaeth, fy mod yn ofidus iawn am nas gallaswn deimlo yn ddigon edifeiriol am bechod Adda; ac yr oeddwn yn ei gymeryd yn ganiatael nas gallasai gael ei faddeu i mi heb y teimlad hyny. Yr oedd Mr. Haggerstone, yr hwn a soniais ym dano o'r blaen, ychydig yn fwy rhydd nag aelodau'r gynulleidfa yn yr hon y cefais fy nwyn i fynu. Yr oedd yn *Faxterian*, ac yr oedd ei ymddyddan cyffredinol o duedd rydd a'r fath ag i weithio o dan fy rhagfarnau. Ond yr hyn a agorodd fy llygaid yn fwyaf neillduol oedd fy ymddyddan ag un Mr. Walker o Ashton-under-Line, yr hwn a bregethodd fel ymgeisydd, pan fethodd ein hen weinidog gan oedran. Yr oedd yn arddel Baxteriaeth; ac o herwydd hynny efe a gafodd ei wrthod. A thra yr oedd Mr. Walker yn ymweled â fy modryb mi a ddaethum yn adnabyddus iawn ag ef, ac i weled llawer o reswm yn ei olygiadau. Gwedi meddwl yn mhellach ar y pynciau yma, mi a ddaethum yn Armin cyn i mi fyned i'r Athrofa; ond nid oeddwn er dim wedi gwrthod y Drindod a'r Iawn.

Er i mi, ar ol gweled rheswm i newid fy ngolygiadau, gael profi cryn rwystr ac aflonyddwch oddiwrth gaethder *(rigour)* y gynulleidfa y perthynwn iddi, mi gydnabyddaf bob amser yn ddiolchgar iawn fy mod yn ddyledus iddi am lawer. Yr oedd achosion crefydd yn cael eu dwyn yn y blaen yn hynod o effeithiol. Yr oeddem yn cael ein hegwyddori yn gyhoeddus hyd nes oeddem wedi tyfu i fynu—gwasanaethyddion yn gystal ag ereill: esponiai y gweinidog yr Ysgrythyrau mor rheolaidd ag y pregethai, ac nid oedd braidd diwr-

nod yn yr wythnos yn myned heibio heb ryw gyfarfod neu gilydd gan rywrai o'r gynulleidfa.

Cynelid cyfarfod i ddynion ieuainc er ymddyddan a gweddi un noswaith o'r wythnos; ac yr oeddwn yn arfer myned iddo yn wastadol, ac yn gweddio yn ddifyfyr fel ereill pan y byddid yn galw arnaf. Yr oedd cyfarfod misol o fenywod yn cael ei gynal yn nhy fy modryb, y rhai a weddient yn gystal a neb o'r gynulleidfa. Fel plentyn yn y teulu, yn gyntaf, caniateid i mi fod yn bresenol, ac yn tyfu i fynu yn ddiarwybod braidd, cefais eu clywed wedi i mi ddyfod yn alluog i farnu. Yr oedd fy modryb, wedi marwolaeth ei gwr, yn arfer gweddio hwyr a boreu yn y teulu, hyd nes oeddwn oddeutu 17eg oed, pryd y darfu y ddyledswydd hyny ddyfod arnaf fi. Yr oedd dydd yr Arglwydd yn cael ei gadw yn hynod o gaeth. Nid oedd dim bwyd yn cael ei drin y diwrnod hwnw, ac nid oedd neb yn cael rhodio allan er difyrwch; ond yr oedd yr holl ddiwrnod yn cael ei dreulio yn y cyfarfod cyhoeddus, gartref yn darllen a myfyrio, neu ynte mewn gweddi yn yr ystafell. Yr oedd yn arferiad genyf y pryd hwnw i adgofio cymaint ag a allwn o'r pregethau a glywswn, a'i hysgrifenu hwynt i lawr. Mi ddechreuais hyn yn foreu iawn, ac a barhauais hyd nes oeddwn yn alluog, wedi cael penau pregeth, i lanw'r gweddill fy hunan; oddiwrth hyn yn raddol ffurfiais arferiad o gyfansoddi gyda rhwyddineb neillduol; ac yr wyf yn credu ei fod wedi bod o les mawr i mi trwy fy mywyd.

Felly, gan nad oeddwn yn anfoddloni i ffurfiau caeth crefydd, megys y buasai ereill, o well iechyd ac ysprydoedd efallai, mi gyrhaeddais feddwl difrifol yn foreu mewn bywyd. Yr oeddwn y pryd hyn yn groes iawn i chwareuyddiaeth *(plays)* a ffug-chwedlau, yn nghyda phethau eraill, fel nas darllenais un gwaith o'r fath hyn, ond "*Robinson Crusoe*," hyd nes aethum i'r Athrofa. Yr wyf yn cofio yn burion weled fy mrawd, Timothy, yn darllen llyfr ar grwydr-farchogaeth *(Knight Errantry)*; a chyda digllonedd dirfawr cipiais ef o'i law ac a'i teflais ymaith. Fe ddaeth y brawd hwn, wedi dilyn galwedigaeth fy nhad am ychydig, yn fwy difrifol, os oedd bosibl, nag oeddwn i; ac wedi cael addysgiaeth anmherffaith, aeth yn weinidog yn mhlith yr Annibynwyr.

Dysgais *short-hand* Mr. Annett pan oeddwn yn yr ysgol ramadegol. Meddyliais y gallwn wneuthur rhyw welliant ynddi; felly ysgrifenais at yr awdwr, ac fe fu hyn yn ddechreuad cyfrinach rhyngom a barhaodd am lawer o flynyddau. Yr oedd ef, fel ag y deallais, yn annghrediniwr mewn Cristionogaeth, ac yn anghenrheidiwr. Fe ddarfu i amrywiol lythyrau, y rhai a ysgrifenwyd gyda gofal o bob tu, i bassio rhyngom ar y pwnc hyn; ac fe fu Mr. Annett yn daer wrthyf lawer gwaith am ei adael i'w cyhoeddi, yr hyn a wrthodais bob amser. Yr oeddwn i yn amddiffyn rhyddid philosophyddaidd, a darfyddodd y gyfrinach cyn i mi gael fy argyhoeddi o dwyll fy ymresymiadau *(arguments)*; er i mi ddyfod yn angenrheidiwr cadarn gwedi myfyrio'n rheolaidd ar y pwnc yn ystod fy arosfa yn yr Athrofa; ac yr wyf yn ystyried fy mod wedi cael budd mawr trwy fy holl fywyd yn fy nghred ddiysgog yn yr athrawiaeth hon.

Yr oedd fy modryb a'm holl berthynasau yn Galfiniaid trwyadl; a bwriadent fy nanfon i Athrofa Mile-end, yr hon oedd y pryd hyny dan ofal Dr. Conder; ond o herwydd fy mod y pryd hwnw yn Armin, gwrthodais hyny yn benderfynol, yn neillduol pan y daethum i wybod, os myned yno a wnawn, y byddai'n rhaid, heblaw rhoddi fy *mhrofiad*, i gydsynio â deg erthygl

printedig o'r ffydd fwyaf Galfinaidd, a'u hail-adrodd hwynt bob chwe' mis. Mwyaf tebyg y buasai fy ngwrthodiad yn ofer, oni buasai i Mr. Kirkby gyfryngu, a chymeradwyo'n gryf Athrofa Dr. Doddridge fel yr un oreu i'm gwneuthur yn ysgolhaig. Yr oedd Mr. Kirkby ei hun yn ysgolhaig clasurol da iawn, heb ryw feddwl uchel am y dull o addysgu ag oedd yn mhlith yr Annibynwyr mwyaf uniawngred *(orthodox)*. Yr oedd yn hoff o honof, ac yn chwenych i mi gael pob mantais ag a allasid. Cydsyniodd fy anwyl fodryb, gan nad ydoedd yn benboeth Galfinaidd; a chan fod Dr. Doddridge wedi marw, cefais fy nanfon i Daventry; a myfi oedd y myfyriwr cyntaf a aeth i mewn yno. Yr oedd gan fy llysfam, yr hon oedd fenyw synwyrol, feddwl uchel am Dr. Doddridge. Yr oedd wedi bod yn deuluyddes (*housekeeper*) iddo am beth amser. Cymeradwyai ei athrofa bob amser; ond bu hi farw cyn i mi fyned yno. Treuliais dair blynedd yn Daventry, h.y., o Medi 1752, i 1755, gyda boddlonrwydd hynod, yn nghymdeithas rhai a ymgymmerent â'r un ymchwiliadau a minnau, yn rhydd oddiwrth y gofalon a'r trymderau sydd yn dyfod ar warthaf y rhai ydynt yn myned allan i'r byd.

Yr oedd yr athrofa yn hynod ffafriol, yn fy amser i, er ymchwiliad difrifol am y gwirionedd, canys yr oedd y myfyrwyr yn ymranedig agos gymaint y naill ochr a'r llall ar bob cwestiwn o bwys, megys Rhyddid ac Angenrheidrwydd, cwsg yr enaid, a holl erthyglau duwinyddol uniawngred a heresi; yn ganlynol dadleuem ar y pynciau yma yn barhaus. Yr oedd ein hathrawon yn gwahaniaethu hefyd: cymerai Dr. Ashworth yr ochr uniawn-gred o bob cwestiwn, a Mr. Clark, yr is-athraw, ochr heresi, er gyda'r gwylder mwyaf bob amser.

Yr oedd ein dau athraw yn ieuainc, o leiaf fel athrawon; a chan fod rhai o'r myfyrwyr henaf yn rhagori mwy na allasent hwy gymeryd arnynt wneuthur mewn llawer canghen o wybodaeth, boddhaent ni trwy adael i ni gael ein ffordd i raddau mawr, fel nad oedd ein gwersi ambell waith ond ymddyddan cyfeillgar ar y pynciau perthynol iddynt. Caniataent i ni ofyn cwestiynau, a gwneuthur unrhyw sylwadau a ddewisem, a gwnaem hyny gyda'r rhyddid mwyaf, ond bob amser yn foneddigaidd.

Yr oedd dull a threfn ein addysgiaeth (eiddo Dr. Doddridge*) yn hynod ffafriol i rydd-ymofyniad: cyfeirid ni at awduron o bob ochr i'r cwestiwn, a gofynid oddiwrthym i roddi cyfrif o honynt. Hefyd dysgwylid arnom i dalfyru y rhai mwyaf pwysig er ein gwasanaeth dyfodol. Cynwysai y llyfrgell gyhoeddus yr holl lyfrau ag y byddai cyfeiriad attynt.

Cyfeiriad at "*Dr. Hartley's Observations on Man*," yn ein *Course of Lectures*, a'm dygodd gyntaf i fod yn adnabyddus a'r gwaith ardderchog hwnw, yr hwn yn uniongyrchol a enillodd fy ystyriaeth mwyaf dwys, ac a gynyrchodd yr effaith mwyaf ffafriol, rwy'n credu, ar fy null o feddwl drwy fy mywyd. Hyn sefydlodd fy nghred yn athrawiaeth yr Angenrheidrwydd, yr hon a ddysgais yn gyntaf oddiwrth Collins. Gwellhaodd lawer ar fy nhueddiad i dduwioldeb, yr hyn a ddygais i'r Athrofa, ac a'i rhyddhaodd o'r caethder â'r hwn ei arliwid. Nid wyf yn gwybod yn wir pa un yn fwyaf a wna yr ystyriaeth o gyfundraeth Dr. Hartley; ai goleuo y meddwl neu wellhau y galon—effeithia y ddau i raddau tra rhagorol. Yn y cyflwr

*Yr oedd y drefn ragorol hon gynt mewn arferiad yn Ngholeg Caerfyrddin. Wedi marwolaeth Mr. Peter rhoddwyd i fynu "*Doddridge's Lectures*" am drefn arall, os trefn hefyd. Nis gwyddom am un lleshad a ddaeth o'r cyfnewidiad.—GOL.

yma, yr oeddwn yn gweled rheswm i fabwysiadu'r peth a elwir yn gyffredin yr ochr wrth-gredol *(heterodox)* o bob cwestiwn braidd. Ond er hyn, ac er fod Dr. Ashworth am fy ngwneuthur mor uniawn-gred (*orthodox*) ag y medrai, gan fod fy ymddygiad yn ddiargyhoedd, ac fy mod yn gyffredin yn cymeryd ei du ef mewn pethau bychain ag oeddent yn dwyn arno ddrwg ewyllys llawer o'r myfyrwyr, yr oeddwn, ar y cyfan, mewn parch neillduol gydag ef. Cedwais i fynu fwy neu lai o gyfrinach â Dr. Ashworth hyd ei farwolaeth; ond llawer mwy â Mr. Clark. Fe gafodd hyn ei barhau hyd wythnos ei farwolaeth alarus, pan y cwympodd oddiar ei geffyl yn Birmingham, lle yr oedd yn weinidog.

Er maint ein rhyddid yn chwilio ac yn dadleu, ein heresi eithaf oedd Ariaeth; ac ymadawodd y rhan fwyaf o honom, 'rwy'n coelio, o'r Athrofa yn credu yn yr *Iawn*.

Ffurfiais gyfeillach wresog â Mr. Alexander o Birmingham tra yr oeddwn yn yr Athrofa. Yr oeddem yn yr un dosparth ac yn byw yn yr un ystafell y flwyddyn gyntaf. Fel ag yr oeddem yn cytuno a'n gilydd, codem yn foreu, a gwnaem lawer o waith bob dydd. Un o honynt oedd darllen deg tudalen unplyg o ryw awdwr Groeg bob dydd; ac hefyd *Greek play* yn nghwrs yr wythnos, yr hyn a barhausom wneuthur tra y buom yn yr Athrofa. Trwy hyn daethom yn eithaf adnabyddus a'r iaith Roeg ac a'r awduron goreu ynddi.

Parhausom yr arferiad hwn wedi ymadael â'r Athrofa, gan hyspysu y naill i'r llall beth oeddem yn darllen. Gan i mi ddyfod dan fwy o ofalon bywyd, parhaodd efe yn ei astigrwydd i'r Groeg yn hwy na myfi; fel y daeth, cyn ei farw, yr wy'n tybied, yn un o'r Groegyddion goreu yn y wlad, os nid yn y byd. Yr oedd fy nhynfa i bob amser yn fwy na'r eiddo ef, at ymchwiliadau perthynol i rif a mesur a philosophi.

(I'w barhau.)

MOESOLDEB A CHREFYDD.

Pa beth yn Nuw a eilw allan ein parch, diolchgarwch, cariad, a'n hymlyniad mabaidd? Pa briodoledd a rydd iddo yr hawl i'r syniadau hyn? Nid oes ar hyn ond ychydig o wahaniaeth barn. Dywed pawb Cristionogion fod Duw i'w garu a'i barchu yn benaf oblegyd ei fod yn ddaionus neu garedig, ac oblegyd ei fod yn gyfiawn,—oblegyd y dymuna ddedwyddwch a rhagoroldeb ei greaduriaid ar unwaith,—oblegyd y llawenha i ddanfon cymwynasau i bawb ag ydynt gymhwys i'w derbyn, oblegyd y gorchymyna ac y gwobrwya rinwedd, ac y ffieiddia ac y cospa euogrwydd anedifeiriol. Caredigrwydd ac uniondeb, ynte, ydynt y priodoleddau ar y rhai yr ymorphwys Duwioldeb fel ei gwrthrych, a thrwy gymmundeb a'r rhai y gweithreda ac y tyf.

Eithr ystyriwch am foment pa peth yw caredigrwydd ac uniondeb neu gyfiawnder. Ai nid y rhinweddau hyn a feddyliwn ni wrth *Foesoldeb?* Pa beth yw moesoldeb oddieithr yr arferiad o dymher garedig a chyfiawn tuag at bawb o fewn cylch ein gwybodaeth a'n dylanwad? Os felly, pa beth yw cymeriad Duw—y cymeriad ag yr ydym i'w garu—oddieithr moesoldeb perffaith? Pa beth ond y tueddiadau hyny yn eu cyflawnder, y rhai y gwna cydwybod eu gorchymyn i bob dyn, a'r rhai a wnant i fynu yr hyn a alwn

ni yn uniondeb? Caru Duw, ynte, yw caru moesoldeb yn ei ffurf fwyaf perffaith; ac fel hyn ni a welwn pa fodd y rhed crefydd a moesoldeb, y naill i'r llall, ac yr ânt yn un.

Ymddengys y meddylddrych hwn i mi yn rhy bwysig i fyned trosto yn ysgafn. Mae dynion bob amser wedi suddo rhyw lynclyn mawr rhwng duwioldeb a moesoldeb, crefydd ac uniondeb, defosiwn a rhinwedd. Yr ydys wedi meddwl fod caru Duw yn rhywbeth hollol wahanol i garu ein cymydog, caru ein dyledswydd, caru ymddygiadau iawn a theilwng. Ond nid ydynt i gael eu hysgaru! Yr un peth yw caru Duw a charu uniondeb, oblegyd uniondeb yw Duw; dyma egwyddor ganol *(central principle)* ei gymeriad. Perffeithrwydd moesoldeb yw ei gymeriad, a'i garu Ef yw caru moesoldeb. Nid yw caru Duw ond enw arall ar garu caredigrwydd a chyfiawnder hanfodol—hyfrydwch didwyll ac ufudd yw yn y llywodraeth ddwyfol, gan yr hwn y mae'r rhinweddau hyn yn cael eu hegluro, eu dirgymhell, eu gwasgar ar led, a'u hadnewyddu yn y modd mwyaf gogoneddus. Mor anwahanadwy yw crefydd a moesoldeb. Pe gallem dybied am Dduw fel yn amddifad o'r rhinweddau a'r priodoleddau, y rhai, mewn dynion, a alwn y rhinweddau moesol, byddai i ni wrth hyn rwygo i fynu a dystrywio hedyn bywiol duwioldeb. Ni fyddai dim ar ol yn Nuw i'n cariad, a'n parch, a'n hymlyniad mabaidd i droi am dano. Ni fyddai ganddo yr un hawl drosom. Oblegyd ei fod Yr Un Da, oblegid ei fod yn Fod moesol, ac oblegyd ein bod wrth ei garu ef yn caru moesoldeb perffaith, y mae rhwymau arnom i'w garu a'r holl enaid ac a'r holl nerth.

Yn ol y golygiadau hyn, mae purdeb a nerth ein crefydd yn ymddangos yn gyfangwbl yn ein cariad tuag at gyfiawnder a daioni, ac yn ein hymgais i ddynesu at Dduw yn y perffeithderau moesol hyn. Gwn yr arddangosir crefydd yn gyffredin fel rhywbeth hollol wahanol i hyn. Mae dynion wedi bod yn llafurio bob amser i ysgar duwioldeb oddiwrth rhinwedd,—i ddodi gweniaeth neu or-fawl yn lle ufudd-dod moesol, gweithredoedd o warogaeth i Dduw yn lle uniondeb a charedigrwydd i ddynion. Nid oedd Paganiaeth nemawr yn rhagor na chynyg i enill y ffafr ddwyfol trwy ddefodau allanol, i foddio Duw trwy ryw foddion heblaw bywyd pur a da. Nid yw i'w ryfeddu fod dynion yn hedeg i'r gau-ddulliau crefyddol hyn, gan fod y rhwymedigaethau a arosodant yn ysgafn a rhwydd wrth eu cymharu a'r eiddo uniondeb. Y mae yn ganmil hawddach i wenieitho i'r Bod Goruchaf na llywodraethu ein hunain. Nid oes dim mor galed a diwreiddio nwydau drwg, bod yn uniawn, costied a gostio, a bod yn garedig ac elusengar, o dan bob cyffroad ac anhawsder. Mae ceisio ymdebygu i berffeithrwydd moesol Duw yn annhraethol fwy trafferthus na'i foli yn orfoleddus.

Ymddengys dylanwad dedwyddaf crefydd, nid mewn rhoi i ni lawenydd a phêr-lesmair achlysurol, ond mewn gwneyd ein teimlad o'n dyledswydd yn fwy manwl a galluog, mewn cryfhau cydwybod i wrthsefyll pob peth crëedig pan yn myned yn erbyn ei hargyhoeddiadau, mewn dyrchafu ein bywyd beunyddiol, mewn gwneyd ein llywodraeth ar y nwydau yn gyflawn, ein cymwynasgarwch uwchlaw pob aberth a dyoddefaint, a'n huniondeb yn ansyfladwy megys gorsedd Duw. Ymddengys dylanwad dedwyddaf crefydd, nid mewn dyrchafu dyn i rywbeth uwch na moesoldeb, canys byddai hyn ei ddyrchafu uwchlaw Duw ei hun, ond mewn rhoi i ni feddylddrychau goruchel am foesoldeb, ewyllys bur ac amcan uchel, a'r fath fwriad i gyrhaedd rhagoroldeb na allai fodoli heb wybodaeth am gymeriad Duw, a gobaith am

ei help wrth efelychu ei ddaioni. Mae crefydd yn ein gwneyd yn foesol trwy adnewyddu ein cymeriadau a'n bywydau ar ddelw rhinwedd ddwyfol. Ffurfia ni i uniondeb, a charedigrwydd, a phurdeb, o uwch gradd nag a ali dynion bydol ddychymygu. Yn hyn yr eglurir ei gogoniant a'i nerth. Perffeithrwydd moesoldeb yw crefydd.

W. E. Channing.

GOLYGIADAU Y DIWEDDAR DR. FRANKLIN AR FFYDD, A GWEITHREDOEDD DA:

Yn ei lythyr at y Parch. G. Whitfield, dyddiedig o Philadelphia, Mehefin, 1758.

Syr,—Derbyniais eich llythyr caruaidd o'r ail o'r mis hwn; ac yr wyf yn llawen am glywed o honof eich bod yn cynnyddu mewn nerth.

Am y caredigrwydd a grybwyllwch, da a fuasai genyf iddo fod o fwy defnydd i chwi. Ond pe buasai, yr unig ddiolch a ddymunwn yw, ar fod i chwi bob amser fod mor barod i wasanaethu unrhyw berson arall a fyddai mewn angen am eich cynnorthwy; ac felly bod i gymwynasau droi o amgylch, o herwydd un teulu yw holl ddynolryw.

O'm rhan fy hun, pan fyddwyf ar waith yn gwasanaethu eraill, ni byddaf yn golygu fy mod yn cyfranu rhad roddion, ond yn talu dyledion.

Yn fy nheithiau, ac er pan yr ymsefydlais, derbyniais lawer o garedigrwydd gan ddynion, i ba rai nis gallaf byth wneyd yr ad-daliad lleiaf, a trugareddau dirif gan Dduw, yr hwn sydd yn anfeidrol uwchlaw derbyn lles oddiwrth ein gwasanaeth ni. Y cymwynasau hyny gan ddynion, nis gallaf gan hyny ond eu had-dalu i ddynion eraill; ac nis gallaf ddangos fy niolchgarwch am y trugareddau hyn oddiwrth Dduw, ond yn unig trwy barodrwydd i gynnorthwyo ei blant eraill, a'm brodyr innau. Canys nid wyf yn tybied y gall diolchiadau a moesgyfarchiadau, er eu mynychu yn wythnosol, dalu ein gwirioneddol rwymedigaethau y naill i'r llall, a llawer llai y rhai hyny i'n Creawdwr.

Chwi a welwch yn fy syniad yma am weithredoedd da, fy mod ymhell oddiwrth ddysgwyl teilyngu nefoedd trwyddynt. Wrth nefoedd deallwn gyflwr o ddedwyddwch anfeidrol mewn gradd, a thragywyddol mewn parhâd. Nis gallaf fi wneyd dim fel i deilyngu y fath wobrwyon, canys rhodd ein Nefol Dad ydyw i bawb a'i carant ef. Byddai yr hwn a ddysgwyliai blanigfa dda, yn daliad am roddi dafn o ddwfr i ddyn sychedig yn gymedrol yn ei gais, o'i gymharu a'r rhai hyny a dybiant eu bod yn teilyngu nefoedd am yr ychydig ddaioni a allant hwy wneyd ar y ddaiar.

Mae hyd yn nod y pleser cymysg anmherffaith a fwynhawn yn y byd hwn yn deilliaw o ddaioni Duw, yn hytrach nag o'n haeddiant ni; pa faint mwy felly dedwyddwch y nef! O'm rhan i nid wyf mor wageddol a meddwl y teilyngaf hi—mor ffol ag i'w dysgwyl hi, nac mor uchelfrydig ag i geisio ei hennill hi; ond ymfoddlonaf i ymostwng i ewyllys a threfniad y Duw a'm gwnaeth,—yr hwn sydd hyd yma wedi fy amddiffyn a'm bendithio, ac yn naioni tadol yr hwn y gallaf yn hawdd ymddiried, na's gwna efe byth mo honof yn druenus; ac y tuedda hyd yn nôd y gofidiau y dichon i mi unrhyw bryd eu dyoddef i fod er fy lleshad.

Mae gan y ffydd a grybwyllwch ei defnydd yn ddiau yn y byd. Ni ddymunwn weled lleihad arni, ac ni cheisiwn ei bychanu mewn unrhyw ddyn. Ond dymunwn ei gweled yn cynyrchu mwy o weithredoedd da nag y gwelais hi yn gyffredin; hyny yw, gweithredoedd o ddaioni gwirioneddol, mewn caredigrwydd—haelioni, trugaredd, a dyngarwch cyhoeddus. Nid cadw dyddiau gwŷl, darllen, neu wrando pregethau, a chyflawni defodau eglwysyddol, neu adrodd gweddiau hir-feithion, wedi eu llenwi a gweniaith, a moeseirau dirmygedig, hyd yn nod gan ddynion synwyrol, a llawer mwy analluog i foddio y Duwdod.

Mae addoli Duw yn ddyledswydd. Gall gwrando a darllen pregethau fod yn fuddiol; ond os gorphwysa dynion ar wrando a gweddio, fel y gwna llawer, y mae hyny fel ped ymffrostiai pren ei fod yn cael ei ddyfrhau, a'i fod yn dwyn dail, er na ddygodd ffrwyth erioed. Meddyliai eich Meistr mawr lawer llai o'r ymddangosiadau allanol, a'r honiadau hyny, nag y meddylia llawer o'i ddysgyblion presenol. Gwell oedd ganddo Ef wneuthurwyr y gair, na gwrandawyr yn unig; y mab a ymddangosai yn anufudd i'w dad, eto a gyflawnai ei ewyllys, yn hytrach na'r hwn a broffesai barodrwydd, ond a esgeulusai y gwaith: y Samariad cyfeiliornus ei gred, ond haelfrydig, yn hytrach na'r angharedig, a'r union-gred Offeiriad a Lefiad. Ac am y rhai hyny, a roddasant ymborth i'r newynog, diod i'r sychedig, gwisg i'r noeth, derbyniad i'r dyeithr, a chymhorth i'r claf, er na chlywsant erioed ei enw, tystia Efe y derbynir hwy yn y dydd olaf, pan y gwrthodir y rhai a waeddasant Arglwydd! Arglwydd! y rhai a ymffrostiant yn eu ffydd o allu gwneyd gwyrthiau, ond a esgeulusant weithredoedd da. Tystia Efe na ddaeth i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch; yr hyn a amlygai ei syniad, fod rhai yn ei amser Ef, yn tybied eu hunain mor dda fel nad oedd raid iddynt wrando hyd yn nôd arno Ef, er mwyn gwellhad. Ond yn ein dyddiau ni, nid oes odid offeiradyn nad ystyria yn ddyledus ar bob dyn yn ei gyrhaedd i eistedd dan ei weinidogaeth ddistadl, a bod pwy bynag a esgeuluso hyny yn digio Duw. Dymunwn i'r cyfryw fwy o ostyngeiddrwydd, ac i chwithau iechyd a dedwyddwch.

Ydwyf, &c.,

B. Franklin.

SYRTHIAD Y DAIL.

Y mae cawod o ddail melyn syrthio yn feunyddiol oddiar yr holl goed yn y wlad. Nid oes ond ychydig amser wedi myned heibio oddiar yr oeddent yn egin *(buds)*; ac mewn ychydig funudau yn ychwaneg byddant wedi diflanu. Un fantais oddiwrth ein sefyllfa wledig ydyw, ei fod yn rhoddi llawer o awgrymiadau o'r cyflymdra gyda'r hwn y mae y bywyd yn chedeg ymaith, y rhai nid ydynt mewn dinasoedd a threfydd. Y mae yn anmhosibl i'r dyn sydd yn gyfarwydd a golygiadau o'r fath sydd yn fy amgylchu, i beidio sylwi bob dydd ar fyrdra ei einioes yma, a chael ei rybuddio fel y mae'n sicr y mae, gan ddeng mil o wrthrychau.

Cowper.

Y mae cynghor fel yr eira, po arafaf y syrthia, a pho hiraf y triga, dyfnaf i gyd y syrthia i'r meddwl.

Gorchymynir bod yn lletteugar hyd yn oed i elyn. Nid yw'r goeden yn gwrthod cysgod i'r dyn a'r fwyall yn ei law.

FFITS NEU LEWYGON.

Cynghorion yr Hen Wmphre.

Er nad wyf yn *ddoctor* y mae gennyf rai cynghorion da; a chan na fyddaf yn codi dim tâl am dani, nis gellwch achwyn ar y pris. Yr ydym, y rhan fwyaf o honom, yn cael ein blino weithiau gan ffits; yr wyf fi yn cael fy mlino ganddynt, gwn eich bod chwithau hefyd, er feallai nad addefwch chwi ddim o hynny, ond wele y cynghorion:—

Rhag ffit o Natur Ddrwg: Cerddwch allan i'r awyr agored; gellwch ddywedyd eich meddwl wrth y gwynt heb niweidio neb, ac heb ddangos eich hunan yn symlyn. "Na fydd gyflym yn dy yspryd i ddigio: oblegid dig sydd yn gorphwys ym mynwes ffyliaid."*

Rhag ffit o Ddiogi: Rhifwch dic-dacau'r *clock*. Gwnewch hyn am awr, a bydd yn dda genych i dynu eich cot i lawr, a gweithio fel negro. "Syrthni a bair drwmgwsg, ac enaid twyllodrus a newyna."†

Rhag ffit o Wastraff neu ffolineb: Cerddwch i weithdy-y-tlodion, neu siaradwch â llettywyr brattiog carchardy, a chwi a gewch eich argyhoeddi ei bod yn rhaid i'r hwn sydd yn gwneud ei wely ar ddrain ac ysgall i foddloni ar orphwysfa go anesmwyth: "Paham y gweriwch arian ar hyn nid ydyw fara? a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni?"‡

Rhag ffit o Drachwant: Cerddwch i'r fynwent, a darllenwch y beddfeini, a hwy a ddywedant wrthych beth yw diwedd dyn yn ei sefyllfa oreu. "Canys beth ydyw eich einioes chwi? Canys tarth ydyw, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hynny yn diflannu."§ "Balchder sydd yn myned o flaen dinystr ac uchder yspryd o flaen cwymp."||

Rhag ffit o Rwgnach: Edrychwch oddiamgylch i chwi, am y cloff a'r dall, ymwelwch a'r claf a'r cystuddiedig, a hwy a berant gywilydd arnoch i achwyn am drallodion ysgafnach. "Paham y grwgnach dyn, gwr am gospedigaeth ei bechod?"

Rhag ffit o genfigen: Cerddwch i Brighton, Cheltenham, neu ryw le cyffelyb, a gwelwch pa nifer o'r rhai sydd yn cadw cerbydau sydd yn dioddef oddiwrth y gewinwst, y gymalwst, a'r dyfrglwyf; pa nifer sydd yn cerdded ar ffynbaglau, pa nifer sydd yn aros gartref yn amgueddiedig mewn gwlaneni; pa nifer sydd yn ddarostyngedig i'r *epilepsy* a'r *apoplexy*.

Rhag ffit o Anobaith: Edrychwch ar y pethau da y mae Duw wedi eu rhoddi i chwi yn y byd hwn, a'r pethau hyny y mae wedi addaw i'w ganlynwyr yn y byd nesaf. Yr hwn a â allan i chwilio am we'r cor a'r coryn a'u caiff hwynt; a'r hwn a â allan i chwilio am flodeuyn a ddichon ddychwelyd i'w dŷ ag un yn ei fynwes. "Paham y'th ddarostyngir fy enaid? a phaham y terfysgi ynof? Ymddiried yn Nuw: canys etto y moliannaf ef, sef iachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw."*

Rhag pob ffit o betrusder, dyryswch, ac ofn, pa un ai ar gorph neu ar feddwl, pa un a ydynt yn llwyth ar yr ysgwydd, y pen, neu y galon—y mae y canlynol yn feddyginiaeth gwreiddiol, a gellir ymddibynu arno, oblegid derbyniais ef oddiwrth y Meddyg Mawr, "Bwrw dy faich ar yr Arglwydd ac efe a'th gynnal di: ni âd i'r cyfiawn ysgogi byth."†

M. P. G.

* Preg. vii. 9. † Diar. xix. 15. ‡ Esa. lv. 2. § Iago iv. 14 || Diar. xvi. 18. * Sal. xlii. 11. † Sal. lv. 22.

SILICA.

Cyn belled a gall dyn dreiddio i gronbil y ddaear, naill ai trwy hollfau ac ogofau, neu trwy rym caledwaith y mwnwr, cenfydd bob amser yn y gwaelod y gareg a enwir gan y Fferyllwyr *(Chymists)* Silica. Neu ped esgynai i gopa un o'r mynyddoedd mwyaf uchel yn America ddeheuol, o'r enw Chimborazo, ac hefyd yr Himalaya yn agos i Delhi yn yr India ogleddol (y mynydd hwnw sydd agos i chwech milldir o uwchder!), yno, ar y grib, canfyddai Silica. Wrth deithio glan hyfrydlawn y môr, cenfydd ef etto megys tywod grisialaidd, yr hwn yw Silica yn ei gyflwr pur. Chwiliwch y pridd ar y maesydd yn holl rannau gwybyddus y bellen ddaearol, profa un haner o hono yn Silica. Yr *amethyst* ardderchog, y *siderite* glas, y cairngom melyn, y *topas* Indiaidd, y *bloodstone*, y *calcedony* gwyn, y *Sardius*, yr *onyx* amliwiog, y *cornelian*, y graig grisial, y callestr,—yr holl gerig blaenorol ydynt Silica.

Y ffurf ag ydym ni fwyaf cyfarwydd o'i ganfod sydd yn y gareg dân a thywod y môr; er y canfyddwn yn y llys, yn y perlau sydd yn ardderchogi y goron, ac yng nglicciet y mwsgedi sydd yn gwylio y goron hono; etto yr un Silica ydyw ef, ond mewn arddull gwahanol.

Pa beth ydyw'r eil-iar (*butterfly*) pan fo ar y goreu,
Ond pryfyn cadachog (*caterpillar*) yn llawn ysnodenau.

Mae haner ein byd ni, mewn gwirionedd, yn Silica. Mewn amryw raddau o blanhigion, yn neillduol y gwenith, corsen siwgr, haidd, ceirch, rhyg, a llawer craill, y mae dyn yn ymddibynu arno am fywyd. Rhysgl gwydraidd y plannigion sydd Silica pur, yn cael ei sugno o'r pridd gan y plannigion byw, ar yr hwn y mae yn tyfu. Mae cymmaint o Silica ar rai corsenau fel y taniant os tarewir hwynt yn erbyn dur, neu hyd y nod fin cyllell. Nid allai planigion dyfu yn uchel ac unionsyth heb mewn gwirionedd y peth y gelwir eu *hesgyrn* arnynt, hyny yw Silica.

Mewn anifeiliaid caiff yr esgyrn eu gorchuddio gan y cig; mewn plannigion ca y cig ei orchuddio gan yr esgyrn, yn neillduol y porfeydd o ryw y caens. Ei hesgyrn sydd tu allan, ac yn gyfansoddedig y rhan fwyaf o Silica, hyny yw, y defnydd daearaidd sydd yn rhoddi cryfder yn eu gwneuthuriad. Heb gymysgiad digonol o Silica yn y pridd byddai y plannigion yn analluog i dreiddio eu gwreiddiau trwy ac ar hyd y clai gwydn, a'r marm caled. Trwy hyn canfyddwn mor anmhrisiadwy o werthfawr ydyw Silica yn nghyfansoddiad cyffredinol nattur er ei pherffeithio, a chyda'r fath brydferthwch ca y gwaith ei gynysgaeddu gydag onid arliw gwan o fettel. Wrth droi oddiwrth nattur at gelfyddyd, tarewir ni â syndod pa faint y mae celfyddyd yn ddyledus i Silica am ei chynydd. Mae hanner gwydr yn gyfansoddedig o Silica; ac ni a wyddom pa faint mae y defnydd hyny wedi ychwanegu o'n dedwyddwch a'n cysur cymdeithasol. Ein ffenestri cyffredin, gwyrddeudai, bwrddwydrau, drychau,—oll wedi cynyrchu eu rhan; ac fel bo henaint yn dyfod, cymhorth gwydr-ddrych sydd llesiol. Y rhyw oreu o'r rhai hyn ga ei gwneuthur o *Brazilian quartz*, neu fel y geilw'y trem-beirianwyr (*Opticians*) ef, gröyn (*pebble*); gofynwch i'r fferyllydd beth yw y gröyn yma, atteba—Silica! Yn agos y cyfan a wyddom ac a glywsom am trydaniaeth (*electricity*) fyddai heb ei ddwyn i oleuni oni bai gwydr. Y wybodaeth ydym wedi enill trwy y chwydd-wydr, gyda'r hwn y galluogir ni i ganfod ymhellach i ryfeddodau yn ngwaith ein Crëwr, dyledus yw i wydr, ac nis gallesid ei wneyd heb Silica. Yr holl ddarganfyddiadau am fydoedd ereill oddiar y philosophydd

Tuscanaidd—Galileo—yr hwn a wnaeth gyntaf droi pen ei chwydd-wydr i'r ffurfafen sydd ddyledus i wydr, ac am hyny i Silica. Mawr fath beth ydyw Silica.

Felinfach. Ystrad, Medi, 1860. A. G.

CYDYMFFURFIAD A'R BYD.

Wrth gydymffurfio â'r byd yr y'm yn golygu fod ein calonau, ein meddyliau, a'n cynllunian, yn cael eu cyfeirio at wrthddrychau bydol. P'an y mae dyn yn gwneuthur y byd hwn fel ei unig Dduw, ac yn ffurfio ei fywyd a'i gymeriad yn ol hyny, dyna beth feddyliwn mae'r apostol yn feddwl; a thyna beth mae dynion yn feddwl yn gyffredin wrth gydymffurfiad â'r byd; h. y., byw yn fydol ac yn bechadurus heb ofalu am ddim ond am bethau y byd presenol. Nid yw cydymffurfiad â'r byd yn arwyddo y gwisgiad o'r un fath o liwiau, neu yr un fath o doriad, neu yr un dull o siarad â'r byd yn gyffredinol. Y mae yn wir, os nad yw dyn yn gwneuthur Duw o'r byd, os yw yn farw i'r byd, os mai ei brif bwynt a'i unig amcan yw boddio Duw a bendithio ei gyd-ddynion trwy wneud daioni iddynt, y bydd iddo gael ei arwain a'i dueddu i wahaniaethu oddiwrth y byd yn ei foesau ac yn ei ymddangosiad allanol mewn llawer o bethau; ond ni bydd iddo gael ei arwain na'i dueddu ychwaith i wahaniaethu oddiwrth ddynion y byd ymhob peth allanol, y rhai nad ydynt o un pwys.

Ni fydd y dyn da yn hynod o awyddus am hynodrwydd; ni wisga ei het am ei draed na'i esgidiau am ei ben; ac ni cherdda fel yr anifail ar ei bedair bagl. P'an y mae y byd yn myned rhagddo o dde, y mae yn foddlon i fyned gydag ef, gan ystyried ei bod yn ddigon cynar i ymadael ag ef pan y mae yn myned ar gyfeiliorn; ac nid fel y dall yn arwain y dall nes iddynt syrthio ill dau i'r ffos. Nid yw rhai dynion yn gwybod yn iawn pa mor belled y dylent ddilladu, siarad, a gweithredu fel y byd, na pha mor belled ac ymha fanylion y dylent fod yn hynod. Yn awr nid yw yn angenrheidiol i neb, debygaf, i aflonyddu eu hunain ynghylch y fath bethau gwael ac arwynebol. Yr hyn ddylai pob dyn wneuthur yw hyn, sef cymeryd gofal i beidio gwneuthur Duw o'r byd hwn, i beidio ei adael i fod yn feistr, ac i beidio byw i ddybenion bydol: peidio dilladu, siarad, a diffrwytho ei amser er sicrhau cyfoeth, a phleserau, a meluswedau y byd, neu enw da, parch, a chyfeillach dynion bydol; eithr i amcanu bob amser ac ymhob peth gyflawni y pethau sydd yn rhyngu bodd Duw ac yn tueddu i fendithio dynolryw, ac felly yn dwyn cynghor yr apostol Paul i ymarferiad; sef, "Pa un bynag gan hyny ai bwytta ai yfed, ai beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw." "Ac na chydymffurfiwch â'r byd hwn: eithr ymnewidiwch trwy adnewyddiad eich meddwl," &c.; ac os gwneir hyn nid oes achos i neb gythryblu eu hunain er cael allan pa un ai ydynt yn hynod ai peidio, h.y., pa un ai ydynt yn y *ffasiwn* ai nad ydynt. Ond os ydynt yn siarad ac yn gweithredu gyda golwg i foddio'r byd ac i sicrhau ei wên a'i gyfeillach; os ydynt yn cael eu llywodraethu yn gyfangwbl gan ofnau a gobeithion bydol; os ydynt yn ei wneuthur yn brif bwnc eu bywyd i enill cyfoeth y byd a'i bleserau, ac yn aberthu cydwybod ac egwyddorion cywir er sicrhau eu hamcanion, y maent yn y man yn cydymffurfio â'r byd—pa un ai ydynt yn dilladu fel y Crynwr, neu rhyw ddosparth arall o ddynion—pa un ai ydynt yn myned gyda'r fath amcan i'r dawns neu i'r cymundeb—pa un ai yn difenwi enw Duw

neu yn adrodd gweddiau meithion, h,y., pa un ai ydynt yn pregethu mewn pwlpudau neu yn actio fel digrifwr (*mountebank*) ar yr esgynlawr. Yr ydym yn ofni yn *wir* fod rhai yn dilladu, yn siarad, ac yn gweithredu mewn dull hynod er mwyn hynodrwydd ac er mwyn cydymffurfio â'r byd hwn. Y mae rhai dynion yn meddwl y gallant gyrhaeddyd a sicrhau eu dybenion hunanol a bydol yn well trwy fod yn hynod yn eu gwisg, yn eu siarad, ac yn eu hagweddau benthycol, nag un ffordd arall.

Y mae rhai dynion wedi mabwysiadu dull y Crynwyr o siarad a gwisgo, er mwyn cydymffurfio â'r byd, gan feddwl y buasent yn ddynion mwy parchus a chanmoladwy trwy hyny; tra y mae ereill wedi mabwysiadu dull y Methodistiaid o siarad ac o wneuthur rhyw ystumiau rhyfeddol, gan feddwl gwneuthur eu hunain trwy hyny yn ddynion mwy parchus yn ngolwg y byd; ond wrth chwilio i mewn er cael gweled a deall yn iawn beth yw eu egwyddorion mewnol, y mae eu twyll yn dyfod i'r amlwg, ac y mae yr hyn oedd yn cael ei ystyried fel aur pur yn myned yn beth ffugiol hollol: "Yn wir, meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr." Ond os y bydd dyn yn *wirioneddol* yn amcanu cyflawni y pethau hyny sydd gymeradwy gan Dduw ac yn fendithiol i ddyn; ni bydd iddo geisio cyffelybu, nac mewn siarad na gweithred i'r rhai hyny sydd yn amcanu am y clod sydd yn deilliaw oddiwrth ddynion ac nid o *Dduw*. Etto i gyd, nid hynodrwydd sydd gan y dyn da mewn golwg, ond gogoniant Duw a daioni ei gyd-ddyn. J. B.

LLINELLAU I IOLO FORGANWG.

Mr. Gol.,—Teimlaf yn ddiolchgar i chwi am roddi lle i'r llinellau ardderchog a ganlyn, o weithiau barddonol *Robyn Ddu*, i'r enwog *Iolo Morganwg*: diau y cara llawer eu gweled. Yr eiddoch, William Morgan.

Mesur,—*Beirdd Cadair Morganwg.*

O fewn i'r wlad, rhad anrhydedd,—rhodio
Bu'r mwyngu *Iolo* bêr, mewn gwaeledd,
Yng ngwlad Forganwg, gwan fu gwedd,—y Cymro
A bywiodd *Iolo* heb ddialedd.
Lladin, a deall odwedd,—a hoffai,
Im' darllenai, yn dra llonwedd;
Ei ddawn, i'w hwyl, oedd yn hedd;—a choron
I'w frig, a'i rinion fu'r gwirionedd.
Enill ei wlad, i wledd,—oedd caniad
Da ei wiw fwriad, dioferedd.
Y mae'n lan ei gynghanedd,—llawn llafur
O'i ben, a'i mesur heb un maswedd.
Ef, un glan, ni fynai gledd, na brwydro;
Diengai i nofio iawn dangnefedd:
Carai glod parod, purwedd, tawelwch,
Heb un hyll hagrwch, bai, na llygredd:
Yn enwog iawn i'w anedd,—ei galon
A garai fwynion, a gwir fonedd.
Y rhai union, eu rhinwedd, a gai le mâd
Oll yn ei gariad; wr llawn gwiredd.
Hir wylo bûm ar ael y bedd, tristaol,
Iolo oedd dadol, i'w dda diduedd.
I'm monwes boed amynedd, ar ol tad,
Etto, mae galwad at ymgeledd.
A chyfiawn barch, o fewn bedd,—y mae'n iach
Un uwch cyfrinach, cof eirianwedd;—
A'i lon accenion ceinwedd,—aeth Iolo
I weled rhwyfo golud rhyfedd;
Gwych yw y sant, âg uwch sedd,—na'i amlwg
Egwan Forganwg, neu fro Gwynedd. Robyn Ddu Eryri.

ESGOB ROCHESTER A'R TYWYDD.

Dywed yr *Examiner* fod Esgob Rochester wedi ysgrifenu fel y canlyn at ei offeiriaid :—"Gan nad beth all fod llwyddiant y cynheuaf yn eich plwy, y mae yn ddiamheuol fod Rhagluniaeth Duw Hollalluog wedi cael ei ddangos, wrth attal parhad y gwlawogydd diweddar, gan ba rai y bygwthid y wlad ag adfyd trwm. Y mae ein diolchgarwch neillduol yn ddyledus am y cyfryngiad grasol hwn."

A ydyw yr Esgob yn chwenych rhoi ar ddeall fod Rhagluniaeth Duw Hollalluog weithiau yn hepian? Pan yr oedd y gwlaw yn disgyn yn genllif, a oedd dim o Ragluniaeth Duw Hollalluog yn gweithredu yn gymmaint yn hyn a phan beidiodd y gwlaw?

Dysgir ni fod enw yr Arglwydd yr un mor fendigedig, pa un bynag ai rhoddi, neu cymeryd ymaith y mae. Ond a ydym ni i gymeryd ein dysgu gan Esgob Rochester, i fendithio Duw yn unig pan y mae yn rhoddi; ond i rwgnach mewn anfoddlonrwydd pan y mae yn dwyn ymaith? Bydded i Job benderfynu. Wrth ba reolau y mae i ni farnu ordinhadau Rhagluniaeth, a phenderfynu pa oruchwyliaeth o eiddo Duw sydd er ein daioni, a pha un sydd er ein drwg? Mae'r Esgob yn myntumio fod parhad y gwlawogydd diweddar yn bygwth "adfyd trwm;" ond pe buasai yr adfyd yma mewn gwirionedd wedi syrthio arnom, a all yr Esgob fod mor rhyfygus ag ameu na fuasai wedi'r cyfan er ein lles? Rhagluniaeth Duw Hollalluog, meddai'r Esgob, attaliodd barhad y gwlawogydd; ond gofynir a oedd dim o'r gwlaw wedi disgyn yn ol yr un ewyllys oruchel? Pa le gallwn ni anturio tynnu'r llinell wahaniaethol rhwng ordeinhadau Rhagluniaeth, a dywedyd fod y naill yn galw am ein melldithiad, a'r llall am ein diolchgarwch? Ein diolchgarwch neillduol, meddai'r Esgob, sydd yn ddyledus am y cyfryngiad grasol hwn. Pa beth mae'r Esgob yn ei feddwl wrth *gyfryngiad?* A ydyw'r Hollalluog a'r Hollwybodol yn cyfryngu yn ei weithredoedd ei hun? Pe buasai'r gwlaw yn parhau, oni fuasai hyny yn llawn cymmaint yn ol ei ewyllys Ef a'r tywydd bendithiol trwy yr hwn yr achubwyd y cynheuaf? Dywed yr Esgob fod diolchgarwch yn *ddyledus* am yr amgylchiad neillduol hwn. A wel yr Esgob fod yn dda i ddywedyd wrthym am unrhyw amgylchiad pryd nad yw diolch yn ddyledus? Pan byddo gwlaw mewn gormodedd, yn ol ein meddyliau anwybodus a chamsyniol ni, a ydyw ffynnon diolchgarwch i Roddwr bob peth i sychu fynu yn llwyr o'n mhewn? A oes weithiau unrhyw amser yn bod pan nad ydym dan rwymau diolch i Ragluniaeth? Ai priodol i ni yw rhoddi a gwrthod diolch neillduol i Dduw yn ol fel y byddom, yn nallineb ein meddyliau, yn gweled bod yn dda? Ai ein rhan ni yw penderfynu'r amserau ar ba rai y mae'r Hollalluog yn fwy neu yn llai caredig a thrugarog tuag atom? A ydyw haelioni'r Nefoedd i gael ei fesur a'i bwyso gan y fath greaduriaid anwybodus a mynych-gamsyniol â ni, a'r naill oruchwyliaeth i gael ei chyhoeddi yn fwy haeddianol o glod a diolch na'r llall o appwyntiad yr un daionus Fod? A oes gwirionedd mwy sicr yn bod na hwn, sef na wyr dyn, un amser, beth all fod er ei wir ddaioni, ac y byddai ei ddymuniadau, o'u cael, yn aml yn ddinystr iddo? Mae yr hen Iolo Morganwg wedi salmu yn dda ar y pen hwn:—

> "Pe cai'r dyn ffol, yn hyn o fyd,
> Ei amcan ddall, a'i gael i gyd;
> Ni chai ond a gynnullai'n dren,
> Daranau melldith am ei ben."

"Da iawn wyt Ti, lle cawn dy rodd,
Yn wynfyd calon wrth ein bodd;
Da hefyd wyt, lle cedwi'n ol
Y drwg a gais ein chwantau fiol."

Ond mae i hyn yw credo Esgob Rochester, a'r holl esgobion eraill efallai gydag ef. Yn ol y proiad hwn, gwyddom, i'r diwrnod, hyd pa bryd y dylai wlawio, a pha bryd y mae Duw yn deilwng o ddiolchgarwch ein calonau.

Y fwyddyn ddiweddaf dioddefodd y wlad hon, a'r rhan amlaf o wledydd Ewrop, gymaint os nid mwy o herwydd hir sychder ag y mae wedi ddioddef eleni o herwydd y gwlybaniaeth; a meddyliwn fod diolchgarwch neilldiol y flynedd wedi cael ei roddi am *wlaw*, yna gofynwn, a ydyw ddim o'r cydnabyddiaethau blynyddol yma yn rhoi ar ddeall fod rhywbeth allan o le yng ngorchwylleathau Rhagluniaeth, ac onid ydynt yn anghyson â'r parch a'r ysprydd gwir ostyngedig a dlysgir yn yr Efengyl? Mewn gair mae Esgob Rochester wedi rhoddi achlysur i ofyn llawer o gwestiynau, atebiad boddhaol i ba rai a fyddai o fantais fawr i grefydd, ac yn help i wahaniaethu rhwng gwir ddiwioldeb ag ymyraeth rhyfygus gwir barchedig dadau yn Nuw a'u canlynwyr.

JUNIUS.

Y CODEX SINAITICUS.

Y MAE Dr. Tischendorf newydd gyhoeddi hysbysiad yn nghylch yr Ysgrif uchod, dan yr enw "Notitia Editionis Codicis Bibliorum Sinaitici." Bernir mai hon yw yr ysgrif henaf o'r Testament Newydd, sydd yn awr ar gael; ac iddi gael ei hysgrifenu mor foreuol a'r bedwaredd ganrif. Cafwyd hi, fel yr hysbyswyd eisoes, yn mynachlog St. Catherine yn mynydd Sinai. Bwrfedir ei chyhoeddi yn 1862, mewn dwy ffurf, un argraffiad i fod yn *fac simile*, h.y., yn cnwedd a'r ysgrif wreiddiol, a'r llall mewn argraffnodau cyffredin. Rhydd Dr. T. ddesgrifiad o'r ysgrif, yn nghydag enghreifftiau o'r testun a'i ddarlleniadau pwysig. Yn mhlith ereill, nid yw Marc xvi. 9 hyd 20; Ioan vii. 53 hyd viii. 11; ac 1 Ioan v. 7. Yn Actau xx. 28, y mae yn darllen *Eglwys Duw*, ac yn 1 Timothy iii. 16, darllena, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb, *yr hwn* a ymddangosodd yn y cnawd," &c. Bydd yr argraffiad cyffredin am bris o tewn cyrhaedd pob efrydydd. Y mae y *notitia* yn cynnwys *fac simile* hardd iawn o ran o Luc xxiv.

Gwelir gan hynny, oyda golwg ar y ddadl rhwng y Peirch. Owen Evans a Gwesyn Jones, fod yma brawf ychwanegol, a hwnw o'r gradd uchelaf, yn erbyn y darlleniad cyffredin "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Am y cytiriadau eraill, nid yw amser yn caniattau i mi fanylu arnynt, ond dichon fod darllenwyr yr YMOFYNYDD yn gyfarwydd a'r dadleuon yn eu cylch.

T. S.

DADLEUAETH YR YMOFYNYDD.

Y ddadl rhwng y Parchedigion R. G. Jones ac O. Evans, ynghylch Cywir Ddarlleniad 1 *Tim.* iii. 16.

Y MAE camsyniad yn bodoli, mae'n debyg, yn meddyliau rhai o bobl Merthyr, neu, yr hyn lleiaf, y mae cam-ddarlleniad mewn perthynas â therfyniad diswyth y Ddadl uchod. Teimlwn fod galwad arnom i ddywedyd gair neu

ddau, yn eglurhaol, gyda golwg i gyweirio y camsynied hwnw mor belled ag y gallwn, ac er amddiffyn cymmeriad yr YMOFYNYDD, fel Cyhoeddiad rhydd.

Yr y'm wedi clywed yn ddiweddar, yn *anunionggyrchol*, fod rhai o bleidwyr Mr. Jones yn dywedyd yn hŷf (ni chlywsom air ynghylch y peth oddiwrth Mr. J. ei hun) mai yr achos nad anfonodd ef ei Attebiad i Mr. Evans, fel y disgwyliasid, i'w gyhoeddi yn yr YMOFYNYDD, ydoedd yr "annhegwch" (fel ei galwant) o ofyn fod yr attebiad hwnw i gael ei gyfyngu i *un llythyr*. Pa un ai hyny, neu ryw beth arall, oedd y *gwir* achos, nis gallwn ni wybod yn iawn. Ond dymunwn ddywedyd nad ydym ni yn ymwybodol o gynnyg dangos annhegwch tuag at Mr. J., nac un partiaeth yn y matter. Ac os oes rhwystr wedi digwydd trwy ddim a gynnygiasom ni, byddwn yn barod i geisio ei symud gyda'r cyfleustra cyntaf.

Yn y llythyr olaf o eiddo Mr. J. a gyhoeddasom allan o'r *Annibynwr* (gwel YMOF., Tach. 1859, tud. 262) dywedodd ef "ei fod wedi gorphen â'r profion allanol dros ac yn erbyn y tri darlleniad; a gorphenodd Mr. E. ei attebiad iddo yn Rhif. Chwefror diweddaf. Ac ar yr achlysur hwnw darfu i ni, yn ein sylwadau golygyddol, gynnyg trefn, yr hon, a farnem ni, fyddai yn ddigonol i atteb pob amcan rhesymol dan yr amgylchiad; sef, ar fod Mr. J. i ysgrifenu un llythyr yn ychwanegol ar y pwnc, os gwelai hyny yn gymmwys, i'r YMOFYNYDD, a Mr. E. un arall mewn attebiad iddo; ac yna gorphen y ddadl, ar y pwnc o gywir ddarlleniad yr adnod mewn cwestiwn.

Os oedd gan Mr. J. resymau digonol er dangos y cymhwysder o fod *rhagor nag un* llythyr ychwanegol oddiwrtho ef i gael ymddangos yn yr YMOFYNYDD—gan na hyspysodd mo honynt i ni—ni chawsom gyfleusdra i gymmeryd y matter dan ail-ystyriaeth.

Ond beth bynag am yr hyn a aeth heibio—yr hyn a wnaed, neu yr hyn nis gwnaed—er symud unrhyw ymddangosiad o rwystr oddiar ffordd llwyr-ymchwiliad, a gochelyd pob lliw o bartïaeth—dymunwn hyspysu yn awr (gwell hwyr na hwyrach) y bydd derbyniad etto i attebiad oddiwrth Mr. J. yn yr YMOFYNYDD; ac nad ydym bellach yn gofyn iddo gyfyngu ei sylwadau i un llythyr, os ydyw yn ystyried fod gwneud cyfiawnder ag ef ei hun, ac a'r pwnc, yn gofyn dau neu ragor—ar yr ammod, wrth gwrs, o beidio ag oedi yn hwy, ac iddo gadw at y pwnc mewn dadl.

Goddefer i ni ddiweddu ein sylwadau hyn yn ngeiriau hen Ladinydd duwiol, *Nunc liberavi animam meam.* GOL.

Gohebiaethau.

AT OLYGYDD YR YMOFYNYDD.

Anwyl Syr,—Gan fy mod yn awr yn ysgrifenu hanes ymneillduaeth yn Nghymru, teimlwn yn dra diolchgar i chwi am attebion i'r gofyniadau canlynol :—

1. Pwy oedd y pregethwr Ariaidd cyntaf yn Nghymru, a pha bryd y dechreuodd bregethu ei farn yn gyhoeddus?

2. Pwy ddarfu bregethu Undodiaeth gyntaf yn Nghymru, a pha bryd y dechreuodd ei phregethu?

3. A ellwch chwi fy nghyfeirio at lyfrau lle y gallaf gael hanes bywydau pregethwyr cyntaf Ariaeth ac Undodiaeth yn y Dywysogaeth?

4. A ellwch chwi, neu rai o'ch darllenwyr, fy anrhegu a benthyg y llyfrau a ysgrifenwyd yn erbyn, a thros athrawiaeth pechod gwreiddiol, etholedigaeth, &c., gan y Parch. Jenkin Jones. Llwynrhydowen, a'r Parch. James Lewis, Pencadair? Cafodd y llyfrau hyny eu cyhoeddi ryw bryd rhwng 1720 a 1730.

Teimlaf yn wir ddiolchgar am attebion *buan*.

Ydwyf, anwyl Syr,

Yr eiddoch yn barchus,

THOMAS REES.

Beaufort, Monmouthshire, Hyd. 17, 1860.

MEDDYLIAU AR URDDIAD, (*Ordination*).

MR. GOLYGYDD,—Os y meddyliwch y y gall y llinellau hyn, a gymerais allan o hen Draethod yn fy meddiant, fod o ryw fudd a lles cyffredin i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, y maent at eich gwasanaeth. Ymddengys oddiwrth y ffugenw sydd wrtho (sef J. P.) mai yr enwog Dr. Priestley yw ei awdwr dechreuol; wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan rywun anadnabyddus i mi: ond beth bynag am hyny nid llai eu gwerth ydynt i gael ymddangos eto ar faes yr YMOFYNYDD, gwelwch hwynt yn addas ac yn deilwng o le. Yr eiddoch, &c.

JOHN JONES,
(Eiddil Glan Cynon).

Aberdar, Medi 2, 1860.

Yn gymaint ag y gall amryw fod mewn diffyg o gyfarwyddyd mewn perthynas i Urddiad (*Ordination*), a'r dyb am y fath peth yn gyffredin yn mysg yr Ymneillduwyr, fe fydd i mi sylwi, nad ydym ni (amryw o honom o leiaf) ddim yn meddwl ein bod trwy hyn yn *cyfranu* unrhyw *gymwysder*, heb yr hyn nad ydyw yr hwn a fyddo yn cael ei urddo ddim yn gymwys i weinidogaethu mewn Cymdeithas Gristionogol.

Fel y mae ein holl gymdeithasau yn anymddibynol, y naill ar y llall, aelodau pob cymdeithas yw yr unig farnwyr am gymwysderau yr hwn a fyddont yn ddewis fel gweinidog yn eu plith. Yn ganlynol, eu dewisiad hwynt o hono yw ei briodol *urddiad*, neu yr hyn sydd yn rhoddi iddo *hawl i'r swydd* yn eu plith. A'r hyn oll y mae gweinidogion yn ei wneuthur ag sydd yn dwyn rhan yn yr hyn a elwir *urddiad*, yw ei orchymyn ef a'i lafur dan ddwyfol fendith, trwy weddi, a rhoddi hyfforddiadau cymwys iddo ef a'r bobl.

Oddiar y meddwl hwn am urddiad y mae yn awr yn arferiad yn mysg yr Ymneillduwyr, yn enwedig y rhai a elwir Presbiteriaid, i'r gweinidog gyflawni pob rhan o'i swydd, bedyddio, a gweinyddu Swper yr Arglwydd, yn gystal a phregethu a gweddio cyn yr urddiad; mewn trefn i symud, yn fwy effeithiol, y rhagfarn sydd yn aros mewn llawer, oddiar y dyb fod rhyw allu neu gymwysder yn cael ei roddi ar yr achos, ag sydd yn ei osod ef yn gymwys i gyflawni ar ol y ddefod, yr hyn ni allai ef ei wneuthur o'r blaen.

Yr urddiad neu yr *ordination*, gan hyny, sydd yn gynwysedig mewn *gweddi* dros yr hwn a fyddo wedi cael ei ddewis yn weinidog, yn nghyd â'r cyfarwyddyd, neu'r *charge*. Ond fel y mae yn arferol fod y gymdeithas ac amryw ddieithriaid, yn gynulledig ar yr achos, ac yn enwedig nifer o weinidogion, y mae yn arferol i un roddi pregeth, ar rhyw bwnge perthynol i Gristionogrwydd yn gyffredinol, neu'r weinidogaeth yn neilldduol; ac yn lle'r *gyffes* neilldduol o *ffydd*, ag oedd gynt yn cael ei gofyn gan bawb a fyddai yn cael eu appwyntio yn weinidogion (ei iachusrwydd yn yr hyn oedd y pryd hyny yn cael edrych arno yn beth hanfodol), rhai cwestynau yn awr fydd yn cael eu gofyn iddo, yr hyn fydd yn rhoddi cyfleustra iddo i osod allan yr hyn a welo ef yn gymwys o'i syniadau am Gristionogrwydd, ac am y weinidogaeth o honi, a'r annogaethau i, a threfn ei ymddygiad yn, ei hyfforddiadau i'w wrandawyr.

Y ddefod o *arddodiad dwylaw*, ag oedd yn cydfyned yn yr amseroedd gynt â gweddi dros un neilldduol; trwy yr hyn yr oedd yr apostolion yn cyfranu rhoddion ysprydol; a'r hyn oeddynt yn dybied ar ol hyny oedd yn anghenrheidiol at gymwyso rhai i weinidogaeth yr Efengyl, sydd yn awr yn cael ei gadael heibio yn gyffredin, gan ein bod yn deimladwy nad oes genym ddim i'w gyfranu, ac heb ewyllysio annog coel-grefydd.

Urddiad, heb gael edrych arno yn y y goleu o *gyfranu cymwysderau*, megis yn yr eglwysi Esgobaethol a'r Presbiteriaid gynt, sydd yn cael ei esgeuluso yn hollol gan amryw o'r Ymneillduwyr, gan feddwl ei fod ef yn annog coel grefydd; a chynaliad i fynu o'r *rhith* pan byddo'r *sylwedd* yn eisiau.

Ond pan byddo diben urddiad fel yr eglurhawyd ef uchod yn cael ei ddeall, pan byddo yr hwn a fyddo yn cael ei urddo yn cyflawni pob rhan o'i swydd cyn, yn gystal a chwedi ei urddiad, nid ydys yn meddwl mwyach wrth urddiad yr un peth a chynt, ac nid ydyw yn un annogaeth i goel-grefydd.

Ac yn gymaint a bod y cysylltiad rhwng gweinidog a'i gynulleidfa, yn enwedig yr un gyntaf a ffurfiodd ef, yn beth o'r difrifwch mwyaf, ni's gall fod un anghymwysder, ond y cymwysder mwyaf, i wneuthur hyn yn achlysur o weddi gyhoeddus; ac yna cyfarwyddyd, neu rybudd, oddiwrth weinidog mwy oedranus a mwy profiadol i un a fyddo ond yn ddiweddar wedi cymeryd y swydd arno, sydd dra amserol.

Nis gallaf lai gan hyny nag amlygu fy ewyllys, am i rhyw wasanaeth, ar yr hon y gellir galw urddiad, gael ei chynnal i fynu yn ein plith, ond i ofal gael ei gymeryd i rhagflaenu unrhyw goel-grefydd mewn perthynas i'r cyfryw.

J. P.

CYTHREULIAID AC YSPRYDION.

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

O ran fy hunan, ni theimlais er ys blynyddau un anhawstra, yn y mesur lleiaf, i foddloni fy hun gyda golwg ar wir ystyr demoniaid y Testament Newydd. Ond y mae yn rhaid i mi addef, fod anhawsdra mawr i gyflwyno fy ngolygiadau yn eglur i eraill, o herwydd penboethder, rhagfarn, a choelgrefydd y werin, ac fel mae'n druenus meddwl, o herwydd glyniad yr athrawon wrth hen dybiau, y rhai o'u colli a arweiniai i golled bydol. Canys pa beth a wnai llawer offeiriad a phregethwr heb yr athrawiaeth o fodoldeb y Diafol? Ni fyddai, yn ei olwg ef, ei bregeth a'i *addysg* o fawr werth.

Ond mae yn rhaid taflu golwg fer ar, fel eu gelwir, y "rhai cythreulig" ag y mae hanes am danynt yn y Testament Newydd.

I. Y mae y bodau a dybid eu bod yn meddianu cyrph dynion, yn yr iaith wreiddiol, yn cael eu galw yn *ddemoniaid*. Rhaid addef y cyfarfyddir, yn yr iaith Saesonaeg a Chymraeg, yn fynych yn y Testament Newydd, pan yn rhoddi hanes am y rhai *demonaidd*, rhai "*cythreulig a dieflig*," ond yn yr iaith wreiddiol demoniaid yn unig a arferir; ac y mae y gair hynny a arferir yn cymhwysedig at y rhai hynny mewn 52 o fannau, heblaw ferfau eraill mewn llawer man. Y mae Beelzebub yn cael ei alw yn "bennaeth y cythreuliaid" *(y demoniaid)*; byddai yr enw o *dduw y Cylion* yn fwy priodol i'w arglwyddiaeth, yr hyn yw ystyr y gair; neu dduw Ekron, lle yr oedd iddo deml ac *oracl*, a lle yr ymofynodd Ahazia, pan y syrthiodd trwy y lloft, pa un a fyddai iddo i wella, ai peidio. Gwelir, yn ol tyb yr Iuddewon ac ereill, mai enaid dynol wedi ei ddwyfoli oedd Beelzebub, a bod ei genadau israddol ef yn presenoli eu hunain yn nghyrph dynion, y rhai a alwent yn rhai cythreulig, neu mewn ystyr priodol, yn ddemoniaid. Cyhuddwyd Iesu Grist pan yn gwella y rhai hyn mai trwy Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid, yr oedd ef yn bwrw allan gythreuliaid; ac y mae Crist Iesu, heb eu hargyhoeddi o'u ffolineb yn credu mewn fath athrawiaeth a bodoldeb y fath fodau, yn dywedyd, Pa fodd y byddai Beelzebub mor ffol ac ymladd yn erbyn ei hun trwy daflu ei weision ef allan?

Wrth gythreuliaid, neu yn hytrach ddemoniaid, yn y Testament Newydd, pan yn gymhwysedig at feddianiaeth (*possessions*) o fodau dynol, nid oes i ni ddeall y diafol, neu yr angylion syrthiedig, fel y credwyd y pryd hyny, ac hyd y dydd heddyw a bregethir; ond duwiau y Cenedloedd, y rhai unwaith fuont yn ddynion neu *arwyr*.

Y peth mwyaf afresymol yn y byd ydyw credu mewn gwir fodoliaeth y fath fodau yn cyfaneddu cyrph dynol, yn neilldiol pan yr holir pa faint ydyw *lleng*. Pa ddyn yn ei bwyll a gredai am fynyd fod miloedd o fodau cythreulig wedi myned allan o ddyn i'r moch? (ond rhagor am hyn yn y llythyr nesaf.) Y mae Josephus, yr hwn oedd yn gydoesog â'r Apostolion, yn dywedyd mewn modd pendant, "Ysprydion dynion drwg oedd y demoniaid, y rhai a aent i mewn i gyrph y byw, ac a laddent y rhai na chaent

gynnorthwy." Y fath ffolineb o enau Iuddew mor ddysgedig ag oedd Josephus! Ond nid efe yn unig ym mysg yr Iuddewon oedd yn coleddu y fath ffolineb, —yr holl ddoctoriaid oeddynt o dan arweiniaeth coel-grefyddau y Groegiaid, &c. Pa beth bynag, yn yr oes bresenol, ni ddylem ni i gymeryd ein harwain ganddynt hwy na neb arall i goffeidiad o goel-grefyddau "ysprydion cyfeiliornus ac athrawiaethau cythreuliaid." —Gwel 1 Tim. iv. 1. TAU GIMEL.

(*I'w barhau.*)

SYLWADAU GAN UN O YSGOL LLANBYDDER.

MR. GOL.,—Teimlaf yn dra diolchgar os cyflwynwch y ddau sylwad canlynol i sylw y lluaws synwyrol sy'n darllen eich Cyhoeddiad hynod, YMOFYNYDD.

UN YN YR YSGOL.

Llanbydder, Medi, 1860.

Ioan vi. 62, "Beth gan hyny os gwelwch Mab y Dyn yn derchafu lle yr oedd Efe o'r blaen?"

Mae Crist yma yn profi ei fod Ef o'r blaen, hyny yw, cyn iddo wisgo cnawd, ac mai oddiuchod y daeth. Nid *angel* oedd Efe; oblegid ni chymerodd Efe natur angylion eithr had Abraham a gymerodd Efe! ac ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Nefoedd.

Beth, neu pwy, oedd Crist? canys eglur yw, Ei fod cyn gwisgo cnawd, ac mai o'r Nef y daeth, ac nid angel oedd!

Drachefn: Mathew xix. 17, "*Paham* y gelwi fi yn *dda?* nid da *neb* ond *un*, sef *Duw*."

Sylwer, nid yw Crist yn dweyd *paid*, ond *paham*! 'Nawr os oedd Crist yn *dda*, rhaid ei fod yn *Dduw;* oblegid nid oes *neb* da ond Duw! Os dywedir fod Crist yn *ddrwg*, yna dywedir fod y Beibl yn *gelwyddog;* canys dywed yr Ysgrythyr ei fod wedi ei demtio ymhob peth, etto *heb bechod!* yr Hwn nid *adnabu bechod!* "Pwy a'm hargyhoedda I (medd Crist) o bechod?" A'r Ysgrythyr nis gellir ei thori!

Hanesion Cartrefol a Thramor.

DYCHWELIAD Y FRENHINES.—O herwydd amlder gohebiaethau y mis hwn mae y gofod a adewir i ni mor gyfyngedig fel nas gallwn roddi ond y peth nesaf i ddim o hanes digwyddiadau mewn byd ac eglwys. Hyderwn nas teimlir hyn yn siomedigaeth, ac y galluogir ni i wneud i fynu y diffyg yn ein nesaf. Mae yn hyfryd genym allu hyspysu fod ein Brenhines a'i Phriod wedi dychwelyd adre' yn iach, ar ol eu mordaith a'u hymweliadau â'u perthynasau Breninol yn Germani a Belgium. Tiriodd ei Mawrhydi yn Gravesend prydnawn dydd Mercher y 17eg o Hydref. Y mae Tywysog Cymru, ar y cyfan, wedi cael derbyniad croesawus dros ben yn yr Unol Daleithiau.

Y CYFANDIR.—Y mae gweithrediadau y Garibaldiaid yn Italy yn parhau i dynnu sylw cyffredinol. Y maent, ar y cyfan, wedi bod yn llwyddiannus i'w ryfeddu. Ond bu brwydr galed, ar y Volturno yn agos i Capua, rhyngddynt â byddin Brenin Naples, ar y 1af o Hydref: wedi hir ymladd ac o braidd y bu Garibaldi yn fuddugoliaethus. Disgwylir bob dydd am gadarnhad i'r newydd a ddaeth, fod Capua wedi syrthio i ddwylaw Garibaldi. Y mae Francis II a'i amddiffynwyr o byd mewn meddiant o Gaeta a'r gymydogaeth. Er ys talm yr oedd llywodraeth Piedmont wedi gweled yr angenrheidrwydd bellach o iddynt hwy weithredu yn amlwg ac yn benderfynol yn y matter ac i wneud hyny yn ddioed. Gyda dechreu'r mis anfonwyd byddin o Piedmont i oresgyn Umbria a'r Marches, sef y taleithiau Pabol nad oeddent dan amddiffyniad y Ffrancod. Llwyddasant i orchfygu byddin amddiffynol y Pab dan Lamorciere, ac i gymeryd Ancona. Ac y mae y wlad oll yn awr yn meddiant Victor Emmanuel oddieithr Rhufain a'r gymydogaeth. Y mae pobl deheudir Italy eisoes wedi rhoddi eu pleidlais (trwy *universal suffrage*) dros gael bod mewn undeb â Phiedmont a dan yr un llywodraeth. Disgwylid y byddai i Victor Emmanuel fyned i mewn i Naples ar yr 28ain, a thranoeth y byddai iddo gael ei gyhoeddi ar osteg, yn *Frenin Italy* oll. Ni bydd hyn ddim ond dechreu: beth all ddigwydd yn ol llaw amhosibl rhagweled. Y mae milwyr Awstria a Phiedmont eisoes yn gwilied ac yn bygwth eu gilydd ar lenydd y Po a'r Mincio. Ac ar y pryd hwn y mae Ymherawdwyr Rwssia ac Awstria a Thywysog Prwssia wedi

ymgyfarfod yn Warsaw, i ymgynghori â'u gilydd.

AWSTRIA.—Mae'r Ymerawdwr Francis Joseph, ar hyn o bryd, fel pe bai am droi dalen newydd. Gobeithiwn y gellir edrych ar y diwygiadau pwysig ag y mae newydd gynnyg i Hungary a thaleithiau creill o'i ymherodraeth, fel dechreuad da. Gwell edifeirwch diweddar na pharhad gormes. Ac os gellir cael adferiad o freiniau cyfiawn, a sicrhau cyfreithiau teg heb chwyldroad gwaedlyd, da iawn fydd hyny ar bob llaw. Dywedir fod Hungary yn aeddfed i wrthryfel, a bod parotoadau tuag at hyny. Wedi eu difuddio o'u cyfansoddiad a'u hiawnderau cenhedlaethol am ddeuddeg mlynedd, braidd y credant nad breuddwyd yw y cynnyg presennol i'w hadferu iddynt, a phrin yr ymddiriedant yn onestrwydd y gynnygiad.

CHINA.—Dysgwylir am newyddion pwysig o China yn ystod y mis dyfodol. Mae byddinoedd Ffrainc a Lloegr wedi tirio yno ac wedi dechreu ar eu gweithrediadau, heb un gwrthwynebiad o bwys hyd yn hyn.

SYRIA.—Mae Fuad Pacha, a'i wyr. trwy gynhorthwy y milwyr Ffrengig, wedi cylchynu y *Druses* yn nghylchoedd Lebanon, a'u gorfodi i ymostwng a rhoddi i fynu y rhai âu â llaw yn y cyflafan diweddar. Y mae cannoedd o'r drwgweithredwyr wedi cael eu dwyn i dreial ac i gospedigaeth; ond nid oes nemawr o le i obeithio y bydd adferiad o gyflawn dawelwch yn y wlad am hir amser.

CYFARFOD CWARTEROL UNDODIAID DEHEUBARTH.—Cynaliwyd cyfarfod yr Hydref, eleni, yn y Cribyn, Ceredigion, dydd Iau y 4ydd o Hydref. Prydnawn y dydd o'r blaen cyfarfyddwyd yn Alltyblacca. Dechreuwyd yr addoliad yno gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin; a phregethodd y Parch. W. Thomas, Llwynrhydowain oddiwrth Salm cxv. 1, a'r Parch. T. Evans, Caerfyrddin, oddiar 1 Tim. i. 15. Boreu dranoeth, yr oedd yr hin yn hyfryd iawn, ac er fod achosion pwysig y cynhauaf yn galw am ofal a diwydrwydd ar y maesydd—am 10 o'r gloch yr oedd cynulleidfa brydferth a lluosog wedi dyfod yn nghyd yn y Cribyn. Dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, ac (yn absenoldeb Dr. Lloyd) pregethodd y Parch. J. E. Jones, Penybont, oddiwrth Ioan xiv. 6. Yn y gynnadledd a ganlynodd, y Parch. T. Griffiths, gweinidog y lle, oedd y Cadeirydd; a'r pwne (os ydym yn cofio yn iawn) ydoedd, "Y gwahaniaeth rhwng Cosp a Cherydd." Llefarwyd ar y pwne gyda llawer o eglurdeb a chymhwysader, ac fel y gellid barnu, gyda chymeradwyaeth cyffredinol, gan y Parchn. D. Evans, W. Thomas, T. Thomas, a T. Evans. Yn y prydnawn pregethodd y Parch. W. Thomas, oddiwrth Ephes. v. 14; a'r Parch. T. Evans oddiwrth Rhuf. xi. 33. Cytunwyd ar fod y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal yn yr Onnen-fawr ger Llandilo, a'r Parch. W. Thomas, o Llwynrhydowain, i bregethu. Pwne y gynnadledd fydd, "Beth yw yr undeb a feddylir yn ngheiriau Crist, 'Myfi a'r Tad un ydym.'"

MARWOLAETHAU.

Awst 18, 1860, Anne Davies, Talfedw Pencarreg, ger Llanbedr Ceredigion, ar ol nychdod hlin a chystudd poenus, yn 74 mlwydd oed.

Medi 9, 1860, David Hughes, Llethrcennin Pencarreg, ger Llanbedr. Dioddefodd gystudd trwm, dros gryn ysbaid o amser, yn dawel ac amyneddgar anarferol; a chredai yn ddiysgog fod ei Greawdwr yn dwyn pob peth oddiamgylch er daioni a lles cyffredinol ei holl greaduriaid. Derbyniwyd ef yn aelod o gymundeb Cacronen. Yr oedd yn ddyn o ymddygiad hynaws a charedig bob amser, ac ar bob achlysur; trwy hyny cerid a pherchid ef, yn mhell ac yn agos, gan wreng a boneddig, drwy'r holl gymydogaethau. Claddwyd ef yn Nghaeronen, yn 43 mlwydd oed. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch D. Evans.

I. GLAN TEIFI.

Yn ddiweddar, yn 100 oed, Daniel Jones, Pound, Llanbedr, Ceredigion.

Yn ddiweddar, yn 94 mlwydd oed, Elizabeth Jones, sef mamynghyfraith Mr. Enoch Stephen, Mountpleasant, Llanbedr, Ceredigion.

Yn ddiweddar, yn 96 mlwydd oed, Mrs. Jones, sef mamynghyfraith Mr. Allen Dolau Cothi Arms, Pumsaint, swydd Caerfyrddin.

Medi 15, David Thomas, Pwllcrych Cellan, Ceredigion, yn 72 mlwydd oed. Bu yn nychu am flynyddau. Yr oedd yn aelod selog a defnyddiol yn Nghaeronen er ys llawer o flynyddoedd; a diau ei fod yn wir Gristion, yr hwn nid oedd twyll ynddo. O ran ei farn, yr oedd yn Undodwr trwyadl hyd dranc; gwelai Dduw, a hwnw yn dirion Dad, yn a thrwy bob peth a'i cyfarfyddai yn y byd, a'r bywyd hwn. Hunodd mewn tangnefedd, ac aeth oddiwrth ei waith at ei wobr.

I. GLAN TEIFI.

Barddoniaeth.

DAU BENNILL AR DDYNGARWCH.

Tôn—Torriad y Dydd.

Ti eiriad byw, Dyngarwch,
Wyt falm i'r ddrylliawg fron,
Cynnwysi fwy hyfrydwch
Na fedd y ddaear hon.
Tydi yw'r achos gwreiddiol
O gysur tref a gwlad;
Mae'th enw mor rhinweddol,
Angeuol yw i frad.
Am hyn pob monwes lenwo,
Mae'n fywyd ynddi' hun;
Ac addurn byw,
Ar ddynol ryw,
Digyfryw yw y gun,
Am lwyddiant i flodeuo
Dyngarwch tirion sydd.
Meddianed hon
Y ddaear gron,
Yn gyson nos a dydd.

Dyngarwch a astudia
Les eraill fel ei hun;
Yn nghanol oerni'r gaua'
Ei ffrwythau sydd yr un;
Gan wylo, mewn dwys deimlad,
Yn hawddgar hi a ddaw;
A cheir i'r tlawd amddifad
Aur rhoddion lles o'i llaw.
Hi ylch yr archoll boenus,
A deigryn yn y fan;
Nid holi pwy
A wnaeth y clwy,
Mawladwy gwna ei rhan.
I'r dioddefydd poenus,
Ac wrth y caeth mae'n fwyn;
Dyngarwch bur
A rwyga'r dur,
Iacha bob cur, a chwyn.

G. BRYCHEINIOG (*Ehedydd*).

Y FAM A'R FERCH.

Mae yn hwyrhau, a rhaid yw myn'd
I'r gwely, rhaid anwylaf ffrynd,
Tyr'd yn ddigwyn.
Nwf da, fy eneth fach, nos da,
Dy alw'n fore, foru wna
Dy *fammi* fwyn.

I gysgu'r aeth yr eneth, 'nawr,
Gael codi'n ufudd gyda'r wawr,
Wrth lais ei rhi';
I gysgu'r *fammi* hefyd aeth,
Ond cyn y bore angau ddaeth
I'w galw hi.

I gysgu'r aeth yr olaf hun,
Hun angau; ac yn galw'r fun
Ni chlywir hi,
Nes clywir sain yr udgorn mawr,
Nes gwelir ar "gerbydau'r wawr"
Ein Brenin ni.

Pryd hyn mewn anllygredig wedd
Y cwyd marwolion oll o'r bedd,
Wrth swn y gan;
A chydag holl deimladau serch
Fe ddweda'r *fammi* wrth y ferch
Cwyd f'eneth lân.

TELOR

YSPRYD CALFINAIDD.

(*Gwel hanes merthyriad Michael Servetus, yn yr Ymofynydd.*)

Fe losgodd Calfin Micha'l
Mil cystal dyn ag ef:
Servetus rodiai beunydd
Yn ufudd ffyrdd y nef;
Mewn carn o goed y llosgwyd,
Ir hefyd myglyd maith,
A Chalfin oedd pryd hynny
Yn gwenu yn y gwaith.

Mae cyfraith 'nawr yn gofyn
Y Calfin am fath dan;*
Neu llosgid pob Undodwr
Nes byddent bowdwr mân:
Awr fyddai'n amser cywir,
Ni ddenir byth am ddwy;
'Rwy'n gwel'd â chil fy llygad
Ben draw eu cariad hwy.

Ar frigau pren celynen
'Dwy'n disgwyl peren byth;
Na chyda'r g'lomen fechan
I'r gigfran wneud ei nyth;
Na llyn o ddw'r droi'n llefrith,
Nag efrau'n wenith pur,
Na falau per un boreu
Wrth flodau mallen sur.

O Awdwr pob trugaredd!
Yn fwynaidd cadw fi,
Mewn yspryd a ddymunwyf,
Nas carwyf boeni ci.
Yn anian hardd Undodiaeth,
O gwna fi'n berffaith iach,
Heb elyn byw yngolwg
Fy nghalon ddiddrwg fach.

Llanwonen. DL. GLOFF.

*Mae lle i obeithio fod llawer, os nid y rhan amlaf, o'r rhai ydynt yn myned dan enw Calvin, y dyddiau hyn, yn mhell o fod o'r un ysbryd a'r gwr o Geneva.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.